# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO** | **PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE** |
| **DYDD MAWRTH,<br>9 MEHEFIN, 2026 am 2.00 o'r gloch yp** | **TUESDAY,<br>9 JUNE, 2026 at 2.00 pm** |
| **CYFARFOD HYBRID – YN YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | **HYBRID MEETING – IN COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY THORUGH ZOOM** |
| **Swyddog Pwyllgor** — **Mrs. Mairwen Hughes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**ELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-
**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O Jones **(Is-gadeirydd/Vice-Chair)**

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Non Dafydd, Euryn Morris, John Ifan Jones, Dylan Rees, Margaret M Roberts, Sonia Williams **(Cadeirydd/Chair),** Sedd Wag/Vacant Seat

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Douglas Fowlie, Derek Owen, Liz Wood

**Llafur Cymru/Welsh Labour**

Pip O'Neill

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters) Parchedig/Reverend Llewelyn Moules-Jones - (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Kathryn Seeney - (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Christina Williams -(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) Mr John Tierney (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fwy a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.***

**R H A G L E N**

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2 COFNODION** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfodydd canlynol :-

- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mawrth, 2026.
- Cofnodion Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd a gynhaliwyd ar 12 Mai, 2026.

**3 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GYMRAEG 2025/2026** (Tudalennau 11 - 34)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

**4 ADRODDIAD CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG (CSGA) 2025/2026** (Tudalennau 35 - 52)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

**5 GWASANAETH ADY A CHYNHWYSIAD 2025/2026 : SEFYLLFA GYFREDOL, HERIAU A CHAMAU NESAF** (Tudalennau 53 - 62)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

**6 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR - 2026/27** (Tudalennau 63 - 72)

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2026

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Non Dafydd, Douglas M Fowlie, John Ifan Jones, Pip O'Neill, Derek Owen, Ken Taylor a Sonia Williams<br><br>Y Cynghorydd Gary Pritchard - Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd.<br><br>Y Cynghorydd Dafydd Roberts - Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg.<br><br>**Aelodau Cyfetholedig**<br><br>Mr John Tierney (Yr Eglwys Gatholig Rufeinig),<br>Mrs Christina Williams (Rhiant Lywodraethwr - Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY). |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc (ar gyfer eitem 8),<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (ar gyfer eitem 8),<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (ar gyfer eitemau 4 a 5),<br>Pennaeth Democratiaeth,<br>Prif Swyddog Datblygu Economaidd (TJ) (ar gyfer eitemau 4 a 5),<br>Rheolwr Rhaglen (Datblygu Economaidd) (EM) (ar gyfer eitem 5),<br>Rheolwr Prosiect (MF) (ar gyfer eitemau 4 a 5),<br>Swyddog Pwyllgorau (MEH),<br>Swyddog Cefnogi - Gwasanaethau Democrataidd (Gweddarlledu) (CH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Euryn Morris, Margaret Murley Roberts a Liz Wood<br><br>Y Cynghorydd Robin Williams - Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer.<br><br>Mrs Kathryn Seeney (Rhiant Lywodraethwr - Sector Ysgolion Cynradd) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | **Aelodau Portffolio**<br><br>Y Cynghorydd Neville Evans - Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion, |

Y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones - Aelod Portffolio Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd,
Y Cynghorydd Alun Roberts - Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth, Morwrol ac Eiddo,
Y Cynghorydd Ieuan Williams - Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff a Newid Hinsawdd.

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodwyd uchod.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Bu i'r Cynghorydd Sonia Williams ddatgan diddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 5 - Cyllid Llywodraeth y DU - Caergybi: Trawsnewid yn seiliedig ar ddiwylliant a threftadaeth, ond yn dilyn cyngor cyfreithiol roedd yn gallu cymryd rhan a phleidleisio ar yr eitem hon.

Bu i Mrs Christina Williams, Aelod Cyfetholedig, Rhiant Lywodraethwr - Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY, ddatgan diddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 8 - Mewnoli'r Gwasanaeth ADY a Chynhwysiant ar Ynys Môn, ond yn dilyn cyngor cyfreithiol, roedd yn gallu cymryd rhan a phleidleisio ar yr eitem hon.

**3 COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2026 yn gywir.

**Gweithred 2 yn codi o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2025:-**

Darparu diweddariad i Aelodau'r Pwyllgor yn dilyn cyfarfod gyda'r Bwrdd Iechyd ar 7 Tachwedd ynghylch y toriadau arfaethedig i wasanaethau Therapi Galwedigaethol ar yr Ynys oherwydd cyfyngiadau ariannu Uwch Swyddog Gweithredol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn.

Derbyniwyd yr ymateb canlynol gan y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â'r Bartneriaeth Diogelwch:-

*Roedd y rolau o fewn y Tîm Iechyd Meddwl yn cael eu hariannu dros dro trwy 'i-CAN' gyda chyllid clwstwr yn y tymor byr. Mae'r cyllid bellach wedi dod i ben, gan olygu fod llai o Therapyddion Galwedigaethol yn y meddygfeydd meddygon teulu. Ar hyn o bryd mae gwaith yn mynd rhagddo i greu model tymor hir sydd yn gynaliadwy ac ailgyfeirio cleifion at Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol neu ddarpariaeth Trydydd Sector er mwyn lleihau'r effaith ar gleifion.*

**4 PORTHLADD RHYDD YNYS MÔN - DIWEDDARIAD YNGHYLCH CYNNYDD**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd i'r Pwyllgor ei ystyried.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Portffolio Datblygu Economaidd mai gweledigaeth Porthladd Rhydd Ynys Môn yw bod yn hwb fyd-eang ar gyfer arloesi, ynni carbon isel a masnach ryngwladol.

Wrth ystyried yr adroddiad, aeth y Pwyllgor ati i drafod y prif faterion canlynol:-

- Cyfeiriwyd at y grant o £1m o arian refeniw a £25m o arian sbarduno cyfalaf a nodir yn yr adroddiad. Gofynnwyd a fyddai'r arian hwn yn cael ei rannu ymysg pob safle ar yr Ynys neu a yw wedi'i fwriadu'n benodol ar gyfer hen safle Alwminiwm Môn yng Nghaergybi. Gofynnwyd hefyd a yw'r arian yn ddigon ar gyfer yr holl safleoedd ac a fydd arian ychwanegol ar gael. Mewn ymateb, dywedodd Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Portffolio Datblygu Economaidd fod y cyllid y cyfeiria'r adroddiad ato ar gyfer yr holl safleoedd a nodwyd ar Ynys Môn. Ar ôl llofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, dywedodd y byddai cyfran gyntaf y cyllid yn cael ei ryddhau a bydd cyllid ar gael ar gyfer Safle Peboc yn Llangefni a'r adeilad newydd yn MSParc, Gaerwen. Dywedodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd fod y statws Porthladd Rhydd yn sicrhau dynodiad safleoedd treth, gan olygu fod y safleoedd yn cael eu cydnabod o dan y gyfraith fel ardaloedd daearyddol lle gall busnesau elwa o ryddhad treth. Bydd yn gyfle hefyd i glustnodi arian tuag at brosiectau fydd yn cynnal a datblygu'r economi.
- Nodwyd fod y statws Porthladd Rhydd yn cynnwys tri amcan, fel y noda'r adroddiad, ac un o'r amcanion hynny yw cynyddu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer pobl leol. Gofynnwyd a yw pobl ifanc yn yr ysgolion uwchradd yn cael gwybod pa sgiliau fydd eu hangen ar fusnesau allai sefydlu ar yr Ynys, gan y bydd angen amser cyn y gellir addysgu pynciau nad ydynt yn rhan o'r cwricwlwm. Mewn ymateb, dywedodd yr Arweinydd y bydd arian yn cael ei ryddhau ar ôl llofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Ychwanegodd fod angen bod yn ofalus cyn codi disgwyliadau o ran y math o gyfleoedd cyflogaeth allai fod ar gael, gan fod hynny'n llwyr ddibynnol ar ba fusnesau sy'n bwriadu lleoli o fewn y Porthladd Rhydd. Ni ellir rhoi arweiniad ynghylch y cyfleoedd cyflogaeth fydd ar gael cyn hynny. Dywedodd fod yr amser y mae'n ei gymryd i gadarnhau'r statws Porthladd Rhydd wedi creu rhwystredigaeth, gan fod y broses ymgeisio am y statws wedi cychwyn ers mis Medi 2022. Dywedodd y Prif Weithredwr fod Cynllun Sgiliau wedi'i baratoi a'i gyflwyno gyda'r Achos Busnes ond bydd angen ei ddiweddaru. Nododd y bydd angen profiad Coleg Menai er mwyn ymweld ag ysgolion i rannu gwybodaeth â phobl ifanc am y cyfleoedd cyflogaeth posib. Mewn perthynas â'r Cynllun Sgiliau, dywedodd fod yr Achos Busnes yn amlygu cyflogaeth o fewn pum sector, sef ynni, adeiladu, uwch weithgynhyrchu, digidol, cyllid a sgiliau proffesiynol. Ychwanegodd fod buddsoddiad preifat i'w weld yn barod gyda'r gwaith clirio sy'n mynd rhagddo ar safle 2Sisters yn Llangefni a safle Alwminiwm Môn yng Nghaergybi. Awgrymodd y Prif Weithredwr y gellid gwahodd cynrychiolwyr o Goleg Menai a phrifathrawon mewn rhyw chwe mis, ar ôl datblygu'r ail Gynllun Sgiliau.
- Gofynnwyd a fyddai'r ffaith fod Land & Lakes yn gydberchnogion tir ym Mharc Cybi yn achosi problemau. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr fod Land & Lakes wedi prynu dau ddarn o dir gan Rio Tinto PLC, gan gynnwys Gwarchodfa Natur Penrhos sydd bellach mewn perchnogaeth breifat. Mae'r darn o dir ar safle Parc Cybi yn rhan o'r dynodiad Porthladd Rhydd. Mae

trafodaethau'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd gyda'r sector preifat ynglŷn â'r posibilrwydd o ddatblygu tir Parc Cybi. Gofynnwyd cwestiynau pellach ynglŷn â safle Octel, sydd yn safle 61 acer. Dywedodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd fod yr hen safle Octel yn eiddo i Carbon3.ai a bod trafodaethau cychwynnol yn mynd rhagddynt ar gyfer datblygu Canolfan Ddata ar y safle.

- Gofynnwyd a yw'n bosib i safleoedd sydd wedi'u cynnwys yn y Porthladd Rhydd gael eu gwerthu'n breifat. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'n bosib gwerthu'r safleoedd ar y farchnad agored gan eu bod mewn perchnogaeth breifat. Nid yw dynodiad Porthladd Rhydd yn cyfyngu ar yr hyn y gall tirfeddiannwr ei wneud â'r tir. Mae'r dynodiad yn cynyddu gwerth y tir ac mae'n fwy tebygol o ddenu mewnfuddsoddiad. Ychwanegodd fod Ynys Môn yn un o ddim ond 12 ardal fuddsoddi yn y DU o ganlyniad i waith a wnaethpwyd ar y cyd â'r sector preifat. Dywedodd y Prif Swyddog Datblygu Economaidd nad yw'r Awdurdod wedi cysylltu'n uniongyrchol â busnesau gan fod y safleoedd mewn perchnogaeth breifat. Nododd mai darn bychan o dir yn unig y mae'r Awdurdod yn berchen arno, ar safle Tregarnedd a Bryn Cefni. Bydd y tir yn cael ei roi ar y farchnad agored i fusnesau ei feddiannu ar ôl cytuno'r statws Porthladd Rhydd.
- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch p'un a oes cyfyngiad ar y 3 safle treth a ddynodwyd ar yr Ynys fel rhan o'r Porthladd Rhydd. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd bod unrhyw Borthladd Rhydd yn gallu cael un safle tollau a hyd at 3 safle trethi. Nododd fod y safle tollau yng Nghaergybi yn safle treth a bod ganddo ddynodiad dwbl. Gellir cynnwys 600 hectar yn y safleoedd treth.
- Gofynnwyd am eglurhad ynglŷn â'r prif risgiau sy'n gysylltiedig â'r Porthladd Rhydd. Dywedodd yr Arweinydd y byddai'r rhan fwyaf o'r risgiau a nodir yn yr adroddiad yn derbyn sylw pan lofnodir y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Cyfeiriwyd at reoli disgwyliadau ynglŷn â faint o gyfleoedd swyddi fydd yn cael eu creu a'r buddion i Ynys Môn. Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod o'r farn mai'r prif risg yw na fydd busnesau'n lleoli ar yr Ynys a'r risg arall yw bod buddsoddiad sylweddol yn digwydd, ond nad yw'n cyd-fynd ag egwyddorion craidd y statws Porthladd Rhydd. Ychwanegodd y gallai risgiau'n gysylltiedig â'r rhyfel yn y Dwyrain Canol hefyd effeithio ar fuddsoddiadau posib gan gwmnïau sy'n bwriadu buddsoddi yn y Porthladd Rhydd ar Ynys Môn.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Cydnabod rôl y Cyngor mewn perthynas â datblygu Porthladd Rhydd Ynys Môn, gan gynnwys cyflwyno'r Achos Busnes;**
- **Cydnabod cadernid y trefniadau llywodraethu a throsglwyddo o'r Bwrdd Cysgodol i'r Bwrdd Llawn;**
- **Nodi'r camau nesaf o ran sefydlu a chadarnhau'r Porthladd Rhydd.**

## 5 DIWEDDARIAD AR GRONFEYDD DATBLYGU ECONOMAIDD LLYWODRAETH Y DU

Cytunwyd i ystyried yr eitemau isod fel un eitem.

- **Diweddariad ar wireddu Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar Ynys Môn 2022/2026**
- **Cyllid Llywodraeth y DU - Caergybi: Trawsnewid yn Seiliedig ar Ddiwylliant a Threftadaeth**

Cyflwynwyd adroddiadau'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd i'r Pwyllgor eu hystyried.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Portffolio Datblygu Economaidd fod Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn cael ei gweinyddu gan Gyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Arweiniol Rhanbarthol a bod y Partneriaid Cyflawni yn monitro cynnydd, gwariant a chydymffurfiaeth yn rheolaidd. Nododd fod arian grant wedi cefnogi prosiectau ledled yr Ynys a'u bod yn cael eu hamlygu yn yr adroddiad.

Cyfeiriodd hefyd at Gyllid Llywodraeth y DU : Caergybi, a nododd fod y Cyngor wedi llwyddo i sicrhau cyllid gan Lywodraeth y DU o dan y Rhaglen Ffyniant Bro, rhaglen a ddaw i ben ym mis Mai 2026. Nododd fod tref Caergybi wedi gweld gwelliannau sylweddol yn dilyn cefnogi'r prosiectau a amlygir yn yr adroddiad.

Wrth ystyried yr adroddiad, aeth y Pwyllgor ati i drafod y prif faterion canlynol:-

- Mynegwyd pryderon am newidiadau yn y grant Cronfa Ffyniant Bro yng Nghymru o fis Mai 2026, gyda 70% o'r dyraniad yn arian cyfalaf a 30% yn arian refeniw. Mewn ymateb, dywedodd yr Arweinydd fod nifer o gyfarfodydd wedi'u cynnal i drafod pryderon am ddyfodol arian grant y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Nododd bod Llywodraeth y DU yn disgwyl i awdurdodau lleol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon allu gweinyddu prosiectau tra bod y fformiwla cyllid yn newid. Codwyd y mater gyda'r Pwyllgor Materion Cymreig yn San Steffan ac yn y Senedd, gan fynegi rhwystredigaeth fod y cyllid yn wahanol i'r cyllid fydd ar gael yn Lloegr. Ychwanegodd fod y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru wedi rhoi pwysau ar y ddwy lywodraeth, gan nodi nad yw'n ymarferol cyflawni amcanion y grant Cronfa Ffyniant Gyffredin ar sail yr un amcanion â'r cyllid blaenorol. Mae'n anochel y bydd newidiadau yn y fformiwla ariannu yn golygu fod swyddi sydd yn gysylltiedig ar arian grant y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cael eu colli. Roedd Aelodau o'r farn y dylid anfon llythyr at Lywodraeth y DU er mwyn mynegi pryderon difrifol am y fformiwla ariannu ar gyfer Cymru. Gofynnwyd a oes unrhyw eglurder ynglŷn â phryd fydd yr arian grant ar gael a ph'un a fydd angen i'r Awdurdod geisio cymorth gan gyrff eraill, yn hytrach na'r sefydliadau partner presennol, h.y. Menter Môn a Môn CF. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Swyddog Datblygu Economaidd y bydd £3.1m o arian refeniw a £1.1m o arian cyfalaf ar gael ar gyfer 2026/2027. Nododd fod y sefydliadau partner sy'n gweinyddu'r prosiectau'n cael eu monitro'n gyson a derbynnir adborth ynglŷn â natur a nifer y cyfleoedd cyflogaeth a grëwyd yn sgil yr arian grant, gyda'r wybodaeth honno'n cael ei hadrodd i Lywodraeth y DU. Gofynnwyd hefyd a fydd rhaid dychwelyd yr arian grant os yw'r busnesau'n peidio â bod. Dywedodd y Prif Swyddog Datblygu Economaidd fod y cais gwreiddiol am arian Cronfa Ffyniant Gyffredin yn cynnwys amcangyfrif o nifer y swyddi

fyddai'r prosiectau'n eu creu. Dywedodd yr Arweinydd fod Llywodraeth Cymru wedi awgrymu y dylai'r arian grant gael ei ddosbarthu ar lefel ranbarthol drwy'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Nododd y byddai Cymru'n derbyn £86m yn llai o arian grant gan fod yr arian wedi'i glustnodi ar gyfer Grantiau Blaengaredd Cymunedol, ond nid yw'r Awdurdod hwn yn gymwys i'w dderbyn. Dywedodd y Prif Weithredwr fod pwysau wedi'i roi ar y ddwy Lywodraeth er mwyn amlygu fod y fformiwla ariannu yng Nghymru yn annheg. Nododd y byddai diffyg arian yn siŵr o roi pwysau ar wasanaethau statudol.

- Gofynnwyd pa sicrwydd sydd y bydd prosiectau sy'n cael eu hariannu gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cael eu cwblhau. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Swyddog Datblygu Economaidd y byddai cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn dod i ben yn 2026. Bydd rhai prosiectau a dderbyniodd fuddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru'n cael eu cwblhau h.y. safle HSBC a phrosiect hen Fwyty'r Crown. Nododd y byddai gwaith yn cychwyn i ddenu arian cyfalaf ond bydd yn ddibynnol ar gyllid allanol. Dywedodd yr Arweinydd y byddai prosiectau'r Gronfa Ffyniant Bro yn cael eu cwblhau a'r gobaith yw y bydd y gwelliannau a wnaethpwyd i adeiladau yn nhref Caergybi yn creu cyfleoedd cyflogaeth yn y busnesau fydd wedi eu lleoli yn y dref.
- Pan fydd y rhaglen Cronfa Ffyniant Gyffredin wedi dod i ben ym mis Medi 2026, nodwydd fod Tîm Cronfa Ffyniant Gyffredin yr Awdurdod yn bwriadu cynnal arfarniad lefel uchel er mwyn casglu gwybodaeth am effaith yr arian Cronfa Ffyniant Gyffredin ar Ynys Môn a darparu darlun cywir o'r gwahaniaeth cadarnhaol a welwyd mewn cymunedau ar yr Ynys yn sgil y buddsoddiad. Gofynnwyd a yw'r Tîm Cronfa Ffyniant Gyffredin yn gallu rhannu gwybodaeth am y gwahaniaeth mae'r buddsoddiad wedi'i wneud ym mhob Ward ar Ynys Môn. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Swyddog Datblygu Economaidd y byddai'n bosib rhannu manylion am wardiau penodol gydag aelodau etholedig.

Roedd yr argymhellion ar gyfer y ddwy eitem fel a ganlyn:-

- **Diweddariad ar wireddu Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar Ynys Môn 2022/2026**

  **PENDERFYNWYD:-**

  - **nodi fod Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU Ynys Môn wedi cael ei gwireddu'n llwyddiannus a nodi'r canlyniadau cadarnhaol a gyflawnwyd rhwng 2022 a 2026;**
  - **nodi bod Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU Ynys Môn wedi'i gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth y DU;**
  - **cydnabod rôl barhaus y Cyngor o ran rheoli'r cyllid ar yr Ynys, yn ogystal â chefnogi partneriaid cyflawni lleol;**
  - **Bod llythyr yn cael ei anfon at Lywodraeth y DU ar ran y Cyngor yn amlinellu ei bryderon, a gofyn iddynt ailystyried y newidiadau diweddar i Gyllid Twf Lleol mewn perthynas â'r fformiwla i ddyrannu arian grant cyfalaf a refeniw yng Nghymru fydd yn cael effaith ar swyddi a gwasanaethu a ariennir gydag refeniw ar Ynys Môn.**

- **Bod llythyr yn cael ei anfon at Lywodraeth Cymru ar ran y Pwyllgor yn amlygu pryderon mewn perthynas ag eglurder a goblygiadau rôl y Cyd-bwyllgorau Corfforedig mewn perthynas â gwneud penderfyniadau ynghylch Cyllid Twf Lleol yn y dyfodol.**

- **Cyllid Llywodraeth y DU - Caergybi: Trawsnewid yn Seiliedig ar Ddiwylliant a Threftadaeth**

  **PENDERFYNWYD:-**

  - **nodi cynnydd o ran gwireddu'r Rhaglen a ariennir gan Lywodraeth y DU ar gyfer Caergybi;**
  - **nodi rôl y Cyngor o ran cefnogi Partneriaid Cyflawni'r Rhaglen a llwyddiannau hyd yma;**
  - **nodi'r canlyniadau a'r allbynnau y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth y DU;**
  - **nodi'r prosiectau a gwblhawyd hyd yma a'r dyddiadau cwblhau ar gyfer y prosiectau sy'n weddill.**

**6 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR AR GYFER 2025/26**

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Sgriwtini, oedd yn amlinellu Blaen Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar gyfer 2026/2027, i'r Pwyllgor ei ystyried.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Douglas Fowlie at Flaen Raglen Waith y Pwyllgor a gofynnodd a fyddai'n bosib symud y gwahoddiad i gynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddyddiad cynharach ar y Rhaglen Waith, oherwydd yr adroddiadau am broblemau o fewn y Bwrdd Iechyd lle mae pobl yn disgwyl am oriau cyn cael eu gweld yn yr Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r mater yn cael ei ystyried yn y lle cyntaf yn y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion.

**PENDERFYNWYD cytuno'r fersiwn gyfredol o'r Flaen Raglen Waith ar gyfer 2026/27.**

**7 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**"O dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**8 MEWNOLI'R GWASANAETH ADY A CHYNHWYSIANT AR YNYS MÔN**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc i'r Pwyllgor ei ystyried.

Dywedodd yr Aelod Portffolio - Addysg a'r Gymraeg fod Cyngor Gwynedd wedi hysbysu'r Awdurdod ym mis Mehefin 2025 ei fod yn bwriadu diddymu Partneriaeth ADY a Chynhwysiant Gwynedd ac Ynys Môn, ac ers hynny bu'r Awdurdod hwn yn ystyried cyfres o opsiynau i greu gwasanaeth effeithiol, effeithlon ac addas i bwrpas fydd yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc ar Ynys Môn. Dywedodd y dylai'r Pwyllgor ystyried strwythur y gwasanaeth newydd yn y lle cyntaf.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod cydweithio strategol yn hanfodol er mwyn gweithio yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon trwy gyd-gynllunio, lleihau dyblygu, symleiddio prosesau a defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon. Bydd sefydlu'r trefniadau craidd hyn yn creu cyfleoedd amlwg i gynnwys partneriaid iechyd yn y gwaith yn dilyn sefydlu'r gwasanaeth, cryfhau llwybrau amlasiantaethol ac ymestyn y ddarpariaeth ataliol ledled yr Ynys trwy gryfhau cydweithio rhwng y Gwasanaeth Dysgu a'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd. Trwy sicrhau trefniadau a phrosesau cadarn o'r cychwyn, bydd modd creu gwasanaeth sydd yn fwy rhagweithiol a chynaliadwy, a gwasanaeth sydd ag anghenion plant, teuluoedd ac ysgolion Ynys Môn wrth ei wraidd.

Mynegodd aelodau'r Pwyllgor yn gadarn y dylid rhoi lle blaenllaw i blant a phobl ifanc yn y Gwasanaeth ADY a Chynhwysiant ar Ynys Môn, a'i bod yn holl bwysig bod plant a phobl ifanc yn derbyn diagnosis cynnar o'u hanghenion.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Pwyllgor Gwaith fod y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn cytuno â'r argymhellion yn yr adroddiad, a bod y Cyngor yn bwrw ymlaen â'r strwythur staffio er mwyn mewnoli'r Gwasanaeth ADY a Chynhwysiant ar Ynys Môn.**

**Y CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**

## PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 12 Mai, 2026

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Non Dafydd, Douglas Fowlie, Gwilym O Jones, Euryn Morris, Pip O'Neill, Derek Owen, Dylan Rees, Margaret M Roberts, Ken Taylor, Sonia Williams, Liz Wood. |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, Pennaeth Democrataidd, Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd John Ifan Jones |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas – Cadeirydd y Cyngor Sir |

---

**1 DATGAN DIDDORDEB**

Dim.

**2 ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Sonia Williams yn Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

**3 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Gwilym O Jones yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

**Y CYNGHORYDD DAFYDD RHYS THOMAS**
**FEL CADEIRYDD Y CYNGOR SIR**

This page is intentionally left blank

03/2026

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 9 Mehefin 2026 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol y Gymraeg 2025/26 |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cynghorydd Sonia Williams |

## 1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?

| Aelod Portffolio | Rôl |
|---|---|
| Cynghorydd Dafydd Roberts | Aelod portffolio ar gyfer Addysg a'r Gymraeg |
| **Swyddog Gwasanaeth (yn cefnogi)** | **Rôl** |
| Dyfan Sion<br>Ffreuer Owen | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Rheolwr Polisi a'r Gymraeg |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Cyflwynir yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor Sgriwtini er mwyn galluogi aelodau i ddarparu her gadarn a sicrwydd ar berfformiad y Cyngor o ran cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Mae hyn yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor:

- Asesu pa mor effeithiol yw trefniadau'r Cyngor wrth gyflawni ei ddyletswyddau statudol
- Gwerthuso effaith y trefniadau ar brofiad defnyddwyr gwasanaethau
- Nodi meysydd lle mae angen cryfhau perfformiad neu gyflymu cynnydd

Mae'r broses graffu hefyd yn allweddol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol a bod ffocws clir ar welliant parhaus.

## 3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac argymhellion

☒Er sicrwydd
☐Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☐Er gwybodaeth

Argymhelliad(ion): Gwahoddir y pwyllgor i graffu a gwneud sylwadau ar Adroddiad Blynyddol y Gymraeg cyn ei gyflwyno am gymeradwyaeth dirprwyedig gan yr aelod portffolio i'w gyhoeddi.



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

## 4. Sut mae'r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

Mae'r iaith Gymraeg yn un o amcanion strategol y cynllun. Mae'n cynnwys ymrwymiadau i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg, darparu gwasanaethau Cymraeg o safon ac i ddatblygu defnydd o'r iaith yn ein gweinyddiaeth.

## 5. Themâu sgriwtini allweddol

Y meysydd allweddol ddylai'r Pwyllgor Sgriwtini ganolbwyntio arnynt:

1. **Effaith –** I ba raddau mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn cefnogi gwella profiad defnyddwyr gwasanaethau sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg?

2. **Gweithlu –** A oes gan y Cyngor gynllun clir a realistig i ddatblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu dros y tymor canolig i gefnogi darpariaeth gwasanaethau?

3. **Blaenoriaethau –** Yn seiliedig ar gynnwys yr adroddiad blynyddol, beth yw'r blaenoriaethau pwysicaf ar gyfer y 12 mis nesaf?

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni gofynion statudol Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 drwy amlinellu sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau dros 2025/26, gan gynnwys darparu gwasanaethau Cymraeg, gweithredu'r polisi iaith, a hybu defnydd o'r Gymraeg ar draws ei weithgareddau.

Mae'r adroddiad yn dangos cynnydd mewn nifer o feysydd, yn enwedig o ran hyfforddiant, hunanreoleiddio a hyrwyddo defnydd mewnol ac allanol o'r Gymraeg. Ar yr un pryd, mae'n tynnu sylw at bwysigrwydd parhau i gryfhau capasiti'r gweithlu a sicrhau defnydd mwy cyson o'r Gymraeg ar draws gwasanaethau'r Cyngor.

Yn sgil hyn, mae'r cyfnod nesaf yn cynnig cyfle i adeiladu ar y sylfeini sydd eisoes ar waith drwy ganolbwyntio ar:

- Datblygu sgiliau Cymraeg staff ymhellach
- Sicrhau cydymffurfiaeth gyson ar draws pob gwasanaeth
- Cefnogi newid diwylliannol i wneud defnydd o'r Gymraeg yn fwy naturiol o fewn y gweithle

Gwahoddir y Pwyllgor felly i ddarparu her adeiladol ar gynnwys yr adroddiad, gan ystyried i ba raddau mae'r cynnydd a nodir yn trosi i welliant ymarferol ym mhrofiad defnyddwyr gwasanaethau a'r defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd.

## 7. Asesiadau effaith

7.1. Asesiad effaith integredig (ystyriaethau cydraddoldeb, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, a'r Gymraeg) wedi ei gynnal?

☐Do
☒Naddo

| |
|---|
| Os naddo, eglurwch pam: Ni ystyrir bod angen cynnal asesiad effaith llawn ar gyfer yr adroddiad hwn. Mae'r adroddiad yn ddogfen ôl-weithredol sy'n crynhoi perfformiad a gweithgareddau'r Cyngor dros gyfnod penodol, ac nid yw'n cyflwyno penderfyniadau newydd na newidiadau i bolisi neu ddarpariaeth gwasanaethau.<br><br>Pe bai unrhyw ddatblygiadau neu gynigion newydd yn deillio o gynnwys yr adroddiad yn y dyfodol, byddant yn destun asesiad effaith priodol fel rhan o brosesau'r Cyngor. |

7.2. Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

| |
|---|
| Ni nodir unrhyw effeithiau newydd, uniongyrchol na negyddol. Yn gyffredinol, mae'r gweithgareddau a amlinellir yn debygol o gael effaith niwtral neu gadarnhaol, gan eu bod yn hyrwyddo cydraddoldeb ieithyddol a mynediad at wasanaethau.<br><br>Mae trefniadau megis darpariaeth hyblyg, gwybodaeth ddwyieithog a hyfforddiant staff yn cefnogi mynediad teg i bawb. |

7.3. Effeithiau posibl ar bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

| |
|---|
| Ni nodir unrhyw effeithiau newydd na negyddol. Disgwylir effaith niwtral neu gadarnhaol, gan fod y gwaith yn cefnogi mynediad cyfartal at wasanaethau a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.<br><br>Mae'r Cyngor yn parhau i hyrwyddo cynhwysiant drwy ddarpariaeth ddwyieithog a datblygu sgiliau staff. |

7.4. Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

| |
|---|
| Ni nodir unrhyw effeithiau negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg nac ar ei statws. Yn hytrach, mae'r adroddiad yn dangos sut mae'r Cyngor wedi cynnal a chryfhau defnydd o'r Gymraeg, gan gefnogi effaith gyffredinol gadarnhaol neu niwtral. |

7.4 Effaith posibl ar darged Carbon Sero Net y Cyngor

| |
|---|
| Amherthnasol. |

## 8 Goblygiadau ariannol

| |
|---|
| Amherthnasol. |

## 9 Atodiadau

| |
|---|
| Adroddiad Blynyddol y Gymraeg 2025 i 2026 |

## 10 Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir

Ffreuer Owen, Rheolwr Polisi a'r Gymraeg

- Polisi Iaith Gymraeg
- Llunio adroddiad blynyddol safonau'r Gymraeg: Dogfen gyngor arferion da

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# Adroddiad Blynyddol y Gymraeg 2025 i 2026

Sut aethom ati i gyflawni ein dyletswyddau,  hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg, a chreu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith

**Dyddiad cyhoeddi:** Mehefin 2026

## Trosolwg

Dyma adroddiad blynyddol Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) ar y Gymraeg ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026. Mae'n gosod allan sut yr aethom ati i:

- Gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a gweithredu ein Polisi Iaith Gymraeg
- Hyrwyddo'r iaith a hybu a hwyluso cyfleoedd i'w defnyddio
- Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gynnal ein busnes

## Mwy o wybodaeth

Mae'r adroddiad hwn ar gael ar ein gwefan yn www.ynysmon.llyw.cymru. Os oes ei angen arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â'r Tîm Polisi a'r Gymraeg.

Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfa'r Sir
Llangefni
LL77 7TU

Ffôn: 01248 75 00 57
E-bost: Cymraeg@ynysmon.llyw.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd cysylltu efo ni yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg.
**This report is also available in English.**

Nodyn: Yn y ddogfen hon ceir cynnwys a gynhyrchwyd gan ddeallusrwydd artiffisial (AI). Adolygwyd y cynnwys gan yr awdur i sicrhau ei fod yn gywir ac wedi'i olygu/ddiwygio lle bo angen. Mae'r awdur yn cymryd cyfrifoldeb am y cynnwys hwn.

## Dogfennau cysylltiedig

Hysbysiad Cydymffurfio dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; Polisi Iaith Gymraeg; Strategaeth Hybu'r Gymraeg; Cynllun y Cyngor. I gyd ar gael ar ein gwefan, https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cyngor/Iaith/Yr-Iaith-Gymraeg-ar-Ynys-Mon.aspx.

# Cynnwys


Rhagair ........ 1
Uchafbwyntiau'r flwyddyn ........ **Error! Bookmark not defined.**
Blaenoriaeth un: Gwasanaethau Cymraeg ........ **Error! Bookmark not defined.**
Blaenoriaeth dau: Defnydd mewnol o'r Gymraeg ........ 5
Edrych ymlaen ........ 7
Atodiad un: Data cwynion ........ 8
Atodiad dau: Data sgiliau iaith Gymraeg, hyfforddiant a recriwtio ........ 9
Atodiad tri: Cefndir yr adroddiad ........ 16

# Rhagair

Mae'r Gymraeg yn rhan bwysig o hunaniaeth a bywyd cymunedol Ynys Môn, ac mae hynny'n cael ei adlewyrchu'n glir yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2023 i 2028, lle mae'r iaith yn un o'n hamcanion strategol. Pwysleisia'r ymrwymiad hwn ein cyfrifoldeb i ddarparu gwasanaethau o safon drwy'r Gymraeg, ac i sicrhau bod yr iaith yn rhan naturiol o waith a threfniadau dydd i ddydd y Cyngor.

Mae'r amcan strategol hwn hefyd yn gosod y cyd-destun ar gyfer ein gwaith o gydymffurfio â Safonau statudol y Gymraeg. Mae'n ein cynorthwyo i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, ac i ystyried anghenion ieithyddol ein trigolion yn gyson wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

Y llynedd, cyflwynom Bolisi Iaith Gymraeg newydd, sy'n garreg filltir bwysig arall yn y gwaith hwn. Adlewyrcha'r polisi diwygiedig amcanion Cynllun y Cyngor a darpara fframwaith clir ar gyfer rhoi'r safonau ar waith yn ymarferol. Cadarnha rôl ganolog y Gymraeg yn ein gwaith mewnol, gan atgyfnerthu hawl staff, aelodau, ac eraill sy'n gweithio ar ran y Cyngor i ddefnyddio'r iaith yn eu gwaith.

Yn ogystal â chefnogi cydymffurfiaeth statudol, mae'r polisi a'r amcan strategol yn rhoi cyfeiriad clir ar gyfer datblygu ein defnydd o'r Gymraeg ymhellach. Mae hyn yn cynnwys cefnogi staff ac aelodau etholedig i ddefnyddio'r iaith yn hyderus, a meithrin amgylchedd lle mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn gyfrwng naturiol ar gyfer gweithio a chyfathrebu.

Pleser yw cyflwyno'r adroddiad blynyddol hwn, sy'n dangos sut y mae'r Cyngor wedi gweithredu'r egwyddorion hyn yn ystod y flwyddyn. Cyniga drosolwg o'r trefniadau sydd ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth, gan amlygu sut y mae'r amcan strategol a'r polisi iaith yn llywio defnydd parhaus o'r Gymraeg ar draws holl wasanaethau a gweithgarwch Cyngor Sir Ynys Môn.



**Cynghorydd Dafydd Roberts**
Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg



**Dylan J. Williams**
Prif Weithredwr

# Uchafbwyntiau'r flwyddyn

Mae uchafbwyntiau eleni'n cynnwys:

- **Lefel uchel o gydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg**
  Dangosodd ein hunanasesiad fod y Cyngor yn perfformio'n gryf ar draws y rhan fwyaf o'r safonau, gyda threfniadau cadarn ar waith i gefnogi gwasanaethau Cymraeg a defnydd mewnol o'r iaith.

- **Cryfhau trefniadau llywodraethu a gwneud penderfyniadau**
  Cymerwyd camau sylweddol i wella llywodraethu, gan gynnwys diwygio templedi adroddiadau a chanllawiau staff i sicrhau bod asesu effaith ar y Gymraeg yn rhan fwy systematig ac amlwg o brosesau penderfynu.

- **Meithrin hyder a diwylliant Cymraeg yn y gweithle**
  Mae ein ffocws parhaus ar ddatblygu sgiliau a chreu cyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg wedi helpu i adeiladu hyder ymhlith staff, a gwneud yr iaith yn rhan naturiol o waith dydd i ddydd. Mae hyn yn cyfrannu at ddiwylliant cadarnhaol lle mae'r iaith yn cael ei gweld nid yn unig fel gofyniad, ond fel adnodd gwerthfawr sy'n cefnogi gwasanaethau gwell i'r cyhoedd ac yn meithrin balchder ymhlith y gweithlu.

- **Mwy o ddefnydd o ddata i lywio gwelliannau**
  Adeiladom ar ein trefniadau monitro a chasglu data, gan gynnwys data ar sgiliau iaith staff a defnydd o wasanaethau, gan roi sylfaen dystiolaeth gryfach i lywio penderfyniadau a gwelliant parhaus.

- **Paratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd**
  Paratowyd yn helaeth ar gyfer cynnal Eisteddfod yr Urdd 2026, gan gryfhau rôl y Cyngor yn hyrwyddo'r Gymraeg ar lefel gymunedol ac ysbrydoli defnydd o'r iaith ymhlith pobl ifanc.

# Blaenoriaeth un: Gwasanaethau Cymraeg

Mae'r adran hon yn crynhoi sut mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau Cymraeg ac yn ystyried effaith ar y Gymraeg wrth wneud penderfyniadau, gan sicrhau cydymffurfiaeth barhaus a gwella cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith.

## Hunanasesu

Cynhaliwyd hunanasesiad ym mis Chwefror 2026 i werthuso cydymffurfiaeth y Cyngor â Safonau'r Gymraeg. Dangosodd y canfyddiadau lefel uchel o gydymffurfiaeth yn gyffredinol, gyda threfniadau cadarn ar waith ar draws gwasanaethau, polisi a gweithrediad mewnol.

Er hynny, nodwyd rhai meysydd lle mae angen gwella cysondeb, yn enwedig mewn perthynas â gweithgareddau hamdden a dibyniaeth ar ddarparwyr trydydd parti, ac mae camau wedi'u hadnabod i fynd i'r afael â'r rhain.

Tynnodd yr hunanasesiad sylw at gryfderau fel datblygu sgiliau iaith y gweithlu, trefniadau recriwtio cadarn a defnydd cynyddol o ddata i lywio penderfyniadau, gan ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer gwelliant parhaus.

## Llywodraethu ac atebolrwydd

Yn ystod y flwyddyn, derbyniom adborth gan Gomisiynydd y Gymraeg ar ein trefniadau presennol, ac ymatebom yn gadarn drwy gryfhau ein trefniadau llywodraethu.

Roedd hyn yn cynnwys adolygu templedi adroddiadau'r pwyllgorau craffu a diweddaru canllawiau i staff er mwyn sicrhau bod:

- asesiadau effaith ar y Gymraeg yn cael eu crybwyll yn glir mewn adroddiadau
- ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i'r canfyddiadau wrth lunio argymhellion

Dylai'r gwelliannau hyn gyfrannu at wneud ystyriaeth o'r Gymraeg (a materion cydraddoldeb ehangach) yn fwy systematig, tryloyw ac integredig o fewn prosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor.

Er bod nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn yn parhau'n isel iawn (dim ond dau), mae hyn yn cyferbynnu â chynnydd yn nifer yr ymchwiliadau statudol a agorwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Ystyriwn ganfyddiadau ymchwiliadau fel cyfle i ddysgu ac i wella. Mae gwaith eisoes ar y gweill i gryfhau ein trefniadau ymhellach, yn enwedig mewn perthynas ag asesu effaith a threfniadau llywodraethu.

## Ymgysylltu ac ymgynghori

Yn dilyn dyfarniad gan Gomisiynydd y Gymraeg, cymerwyd camau penodol i gryfhau ein harferion ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd.

Mae canllawiau diwygiedig bellach yn sicrhau bod staff yn:

- Rhoi ystyriaeth lawn ac amserol i effaith bosibl cynigion ar y Gymraeg
- Cyfathrebu'r effeithiau hynny'n glir mewn dogfennau ymgysylltu ac ymgynghori

Mae'r gwelliannau hyn yn helpu i sicrhau bod ystyriaethau'r Gymraeg yn cael eu hystyried yn gyson ac yn weladwy wrth ddatblygu polisïau a chynigion.

## Grŵp Llywio'r Gymraeg a Chydraddoldeb

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom benderfyniad strategol i ehangu sgôp ein trefniadau llywodraethu drwy ymestyn cylch gorchwyl Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg i gynnwys y maes cydraddoldeb. O ganlyniad, sefydlwyd Grŵp Llywio'r Gymraeg a Chydraddoldeb, sy'n dod â meysydd polisi a gweithredu perthnasol ynghyd mewn ffordd fwy integredig. Mae hyn wedi cryfhau ein gallu i sicrhau bod y Gymraeg a chydraddoldeb yn cael eu hystyried ar y cyd wrth wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau.

Rhai o lwyddiannau'r grŵp yn ystod y flwyddyn oedd:

- Datblygu cynllun gweithredu blynyddol ar gyfer ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, yn cynnwys mentrau ymarferol fel pecynnau *Croeso i'r Gymraeg* a sesiynau dysgu Cymraeg syml i deuluoedd ffoaduriaid, gan gefnogi integreiddio a chynhwysiant
- Cryfhau cydweithio â Fforwm Iaith Ynys Môn er mwyn cefnogi a datblygu mentrau iaith ar lefel gymunedol
- Gwella'r trefniadau ar gyfer casglu a storio data cydraddoldeb staff, gan ddarparu sylfaen dystiolaeth gryfach i lywio penderfyniadau a monitro cynnydd

Ar y cyfan, mae'r newidiadau hyn yn cynrychioli cam pwysig ymlaen o ran integreiddio'r Gymraeg o fewn agenda ehangach cydraddoldeb y Cyngor, gan gefnogi dull mwy strategol, cydlynol a chynaliadwy o hyrwyddo'r iaith.

## Eisteddfod yr Urdd – Paratoi a chydweithio

Yn ystod y flwyddyn, bu gwaith sylweddol ar y gweill i baratoi ar gyfer cynnal Eisteddfod yr Urdd 2026 ar Ynys Môn. Mae hyn wedi bod yn gyfle allweddol i'r Cyngor chwarae rôl flaenllaw yn hyrwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn cyd-destun cymunedol, diwylliannol ac economaidd ehangach.

Trwy gydweithio agos â'r Urdd a phartneriaid lleol, mae'r Cyngor wedi cyfrannu at gynllunio rhaglen o weithgareddau a mentrau fydd yn denu pobl ifanc a theuluoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol, yn ogystal â chryfhau'r cysylltiad rhwng y Cyngor a'r gymuned. Cefnoga'r gwaith hwn amcan strategol y Cyngor ar gyfer y Gymraeg, ac adlewyrchu ein hymrwymiad i hyrwyddo'r iaith nid yn unig o fewn ein gwasanaethau, ond hefyd fel rhan ganolog o fywyd cymunedol yn lleol.

# Blaenoriaeth dau: Defnydd mewnol o'r Gymraeg

Mae'r adran hon yn crynhoi'r camau a gymerwyd i hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn gweithrediad mewnol y Cyngor, gan gynnwys datblygu sgiliau'r gweithlu, cryfhau diwylliant dwyieithog, a sicrhau bod staff yn gallu gweithio ac ymgysylltu'n naturiol drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Polisi Iaith Gymraeg newydd

Roedd hon yn flwyddyn allweddol wrth weithredu ein Polisi Iaith Gymraeg diwygiedig, sef y flwyddyn lawn gyntaf o'i weithredu. Gosoda'r polisi ddisgwyliadau clir ar staff o ran defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith, gan bwysleisio ar yr un pryd eu hawl i weithio drwy gyfrwng yr iaith. Law yn llaw ac amcan strategol Cynllun y Cyngor, mae hyn wedi cryfhau'r fframwaith corfforaethol ar gyfer hyrwyddo defnydd mewnol o'r iaith ac wedi rhoi cyfeiriad strategol cliriach i'r gwaith.

Caiff crynodeb o'r polisi ei rannu i'w ddarllen a'i dderbyn gan bob aelod o staff drwy'r Porth Polisi yn fuan yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

## Meithrin diwylliant Cymraeg

Parhawyd i weithredu ystod o ymyriadau ymarferol i gynnal a hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle. Mae'r rhain yn cynnwys ymgyrchoedd fel *Her Gymraeg y Mis*, rhoi *Croeso Cymraeg* i bob aelod newydd o staff, a sicrhau bod cyfathrebu Cyngor gyfan yn ddwyieithog. At hynny, mae rhaglenni datblygu fel Academi Môn a Dyfodol Môn yn rhoi pwyslais amlwg ar sgiliau iaith Gymraeg fel rhan o ddatblygiad proffesiynol.

Yn ychwanegol, lansiwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith newydd mewn partneriaeth ag Iaith Cyf., i gryfhau dealltwriaeth staff o arwyddocâd y Gymraeg i'r Cyngor a'n hardal ehangach.

## Datblygu sgiliau'r gweithlu

Parhawyd i gydweithio'n agos â Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin i gynnig cyfleoedd i staff ddysgu a gwella eu sgiliau Cymraeg. Er bod y niferoedd yn parhau'n gadarn, gwelwyd gostyngiad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ymhlith y ffactorau mae trosiant staff, cwblhau cyrsiau, a rhai unigolion yn rhoi'r gorau i ddysgu am resymau ymarferol.

Bydd ffocws y flwyddyn nesaf ar ddeall y ffactorau hyn yn well ac ar ddatblygu dull mwy strategol o gynnal cyfranogiad a lleihau'r nifer sy'n rhoi'r gorau iddi.

Dangosodd ein tiwtoriaid hyblygrwydd ac awydd i addasu dulliau addysgu i anghenion gwahanol ein cydweithwyr, gyda phwyslais ar adeiladu hyder a dathlu cynnydd. Mae gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol fel boreau coffi, ymweliadau ac ymgyrchoedd codi arian wedi rhoi cyfleoedd gwerthfawr i staff ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol.

## Dylanwad ar lefel genedlaethol

Yn ystod y flwyddyn, parhawyd i gyfrannu at drafodaethau cenedlaethol ar rôl y gweithle fel sbardun i gynyddu defnydd o'r Gymraeg. Mae profiad a pholisïau'r Cyngor wedi cyfrannu at ddatblygu model polisi iaith gweithle 'arloesol' newydd gan Gomisiynydd y Gymraeg, gan adlewyrchu rôl flaengar y Cyngor yn y maes hwn.

# Edrych ymlaen

Mae ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys:

- **Strategaeth Hybu'r Gymraeg**
  Ail-ymweld â Strategaeth Hybu'r Gymraeg yng ngoleuni unrhyw arweiniad neu argymhellion newydd gan Gomisiynydd y Gymraeg, er mwyn penderfynu a oes angen ei diweddaru neu ei diwygio, a sicrhau ei bod yn parhau'n addas i'r diben ac yn adlewyrchu'r cyd-destun presennol.

- **Cryfhau trefniadau asesu effaith a llunio polisi**
  Parhau i ddatblygu a gwella'r dull o ystyried effaith ar y Gymraeg ar draws pob lefel o wneud penderfyniadau, gan sicrhau cysondeb, tryloywder a dealltwriaeth glir ymhlith staff.

- **Datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu a chyfleoedd dysgu**
  Gweithio i ddeall yn well y ffactorau sy'n effeithio ar gyfranogiad mewn hyfforddiant iaith a datblygu dull mwy strategol o gynnal cyfraddau dysgu a lleihau'r nifer sy'n rhoi'r gorau iddi.

- **Gwella cysondeb darpariaeth gwasanaethau Cymraeg**
  Canolbwyntio ar sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu darparu'n gyson ar draws pob gwasanaeth, gan gynnwys meysydd fel hamdden.

- **Manteisio ar gyfleoedd strategol i hyrwyddo'r Gymraeg**
  Adeiladu ar y momentwm a grëwyd drwy waith paratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd, gan ddefnyddio'r cyfle hwn i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned ac ymhlith staff, yn ogystal â chryfhau proffil yr iaith ar draws yr ynys.

# Atodiad un: Data cwynion

Mae'r atodiad hwn yn darparu manylion cefnogol ar gydymffurfiaeth y Cyngor â'r safonau, gan ganolbwyntio'n benodol ar gwynion ac Ymchwiliadau statudol gan Gomisiynydd y Gymraeg.

**Tabl 1: Manylion cwynion**

Mae'r tabl isod yn nodi cwynion sy'n cwrdd â diffiniad ein gweithdrefn gwynion, sef cwynion gan unigolion a effeithiwyd yn uniongyrchol gan yr amgylchiadau dan sylw ac sy'n codi amheuaeth o fethiant i gadw at Safonau'r Gymraeg neu'n polisi iaith.

| Cwyn | Dosbarth safonau | Manylion |
|---|---|---|
| 2025/26-01 | Cyflenwi gwasanaethau | Ateb uniaith Saesneg i ohebiaeth e-bost Gymraeg |
| 2025/26-02 | Cyflenwi gwasanaethau | Testun Saesneg wedi ei leoli uwchben testun Cymraeg mewn gohebiaeth e-bost ddwyieithog |

**Tabl 2: Manylion pryderon**

Mae'r tabl isod yn nodi pryderon neu sylwadau eraill gan unigolion nad oeddent wedi'u heffeithio'n uniongyrchol, yn ogystal â materion yn ymwneud â'r Gymraeg nad ydynt yn codi amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

| Cyfeirnod | Manylion |
|---|---|
| 01 | Cyfieithu peirianyddol gwallus o enwau ysgolion o'r Gymraeg i'r Saesneg |

**Tabl 3: Manylion ymchwiliadau**

Mae'r tabl isod yn nodi unrhyw ymchwiliadau statudol a gynhaliwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, boed yn deillio o gŵyn neu ar fenter y Comisiynydd ei hun.

| Cyfeirnod | Dosbarth safonau | Manylion |
|---|---|---|
| CS1328 | Cyflenwi gwasanaethau | Defnydd o'r Gymraeg mewn dosbarth ffitrwydd Môn Actif. Methiant wedi ei ganfod i gydymffurfio â'r safonau a chamau gweithredu wedi eu cymryd |
| CS1410 | Cyflenwi gwasanaethau | Defnydd o'r Gymraeg gyda defnyddiwr gwasanaeth digartrefedd. Aros am benderfyniad y Comisiynydd ynghylch a fydd ymchwiliad yn cael ei gynnal |

Penderfynodd y Comisiynydd beidio ymchwilio i un mater arall yn dilyn derbyn sicrwydd gennym o fesurau i gryfhau ein trefniadau asesu effaith ar y Gymraeg.

# Atodiad dau: Data sgiliau iaith Gymraeg, hyfforddiant a recriwtio

Mae'r atodiad hwn yn darparu manylion cefnogol ar gydymffurfiaeth y Cyngor â'r safonau, gan ganolbwyntio'n benodol ar sgiliau iaith y gweithlu, hyfforddiant, a chategoreiddio swyddi.

## Sgiliau iaith staff - Crynodeb

Mae'r Cyngor yn parhau i gasglu a monitro gwybodaeth gynhwysfawr am sgiliau Cymraeg y gweithlu, yn unol â gofynion safonau 170 a 171. Gwneir hyn fel rhan o broses y sgwrs flynyddol gyda rheolwyr. Mae'r ganran dychweliadau yn parhau i fod yn 100%, gan roi sylfaen gadarn ar gyfer dealltwriaeth gywir o gapasiti ieithyddol y sefydliad.

Nid yw proffil cyffredinol sgiliau'r gweithlu wedi newid yn sylweddol ers y flwyddyn flaenorol, gyda:

- tua 78% â lefel uchel o sgiliau Cymraeg (lefelau 4 a 5 ar ein fframwaith sgiliau iaith)
- tua 3% o staff yn ddi-Gymraeg (lefel 0)

Mae hyn yn adlewyrchu gweithlu cryf ei Gymraeg, gan gynnwys lefel uchel o sgiliau ymhlith:

- uwch arweinwyr, rheolwyr a phrif swyddogion
- gwasanaethau rheng-flaen allweddol fel Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai
- swyddogaethau corfforaethol fel Busnes y Cyngor ac Adnoddau

Mae dadansoddiad sgiliau iaith fesul graddfa gyflog yn dangos bod:

- lefelau uchel o ruglder (lefel 5) ar draws y rhan fwyaf o raddfeydd
- gwelliant graddol mewn sgiliau wrth symud i fyny'r graddfeydd
- lefel uchel o sgiliau ymhlith prif swyddogion.

Mae hyn yn bwysig o safbwynt diwylliant arweinyddiaeth a'r gallu i osod esiampl gorfforaethol o ran defnydd a hyrwyddo'r Gymraeg.

# Sgiliau Cymraeg fesul gwasanaeth

**Tîm Arwain (yn cynnwys prif weithredwr, dirprwy, cyfarwyddwyr a chynorthwywyr personol)**
Nifer o weithwyr yn y gwasanaeth: 9

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | - | - | - | - | - | 9 |
| Canran | - | - | - | - | - | 100% |

**Adnoddau**
Nifer o weithwyr yn y gwasanaeth: 97

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 1 | 4 | 4 | 6 | 9 | 73 |
| Canran | 1% | 4% | 4% | 6% | 9% | 75% |

**Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Phrofiad Cwsmer**
Nifer o weithwyr yn y gwasanaeth: 44

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | - | - | - | 1 | 9 | 34 |
| Canran | - | - | - | 2% | 20% | 77% |

**Busnes y Cyngor**
Nifer o weithwyr yn y gwasanaeth: 30

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | - | - | - | 2 | 1 | 27 |
| Canran | - | - | - | 7% | 3% | 90% |

**Digidol, Perfformiad a Moderneiddio**
Nifer o weithwyr yn y gwasanaeth: 58

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 6 | 6 | 2 | 4 | 9 | 31 |
| Canran | 10% | 10% | 3% | 7% | 16% | 53% |

**Dysgu**
Nifer o weithwyr yn y gwasanaeth: 82

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | - | 2 | 1 | 4 | 11 | 62 |
| Canran | - | 3% | 1% | 5% | 14% | 78% |

**Gwasanaethau Cymdeithasol**
Nifer o weithwyr yn y gwasanaeth: 648

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 20 | 44 | 46 | 49 | 110 | 379 |
| Canran | 3% | 7% | 7% | 8% | 17% | 59% |

**Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo**
Nifer o weithwyr yn y gwasanaeth: 309

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 17 | 32 | 25 | 16 | 30 | 189 |
| Canran | 6% | 10% | 8% | 5% | 10% | 61% |

**Rheoleiddio a Datblygu Economaidd**
Nifer o weithwyr yn y gwasanaeth: 325

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 3 | 24 | 18 | 34 | 46 | 200 |
| Canran | 1% | 7% | 6% | 10% | 14% | 62% |

**Tai**
Nifer o weithwyr yn y gwasanaeth: 199

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 5 | 7 | 8 | 12 | 27 | 140 |
| Canran | 3% | 4% | 4% | 6% | 14% | 70% |

## Sgiliau Cymraeg fesul graddfeydd cyflog

**Graddfeydd 1-5**
Nifer y gweithwyr yn y raddfa: 1353

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 43 | 102 | 88 | 110 | 195 | 815 |
| Canran | 3% | 8% | 7% | 8% | 14% | 60% |

**Graddfeydd 6-10**
Nifer y gweithwyr yn y raddfa: 458

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 9 | 16 | 18 | 20 | 61 | 334 |
| Canran | 2% | 3% | 4% | 4% | 13% | 73% |

**Prif swyddogion**
Nifer y gweithwyr yn y raddfa: 18 (data ar gyfer 16)

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | - | - | - | 1 | 1 | 14 |
| Canran | - | - | - | 6% | 6% | 88% |

**Diagram 1: Sgiliau Cymraeg fesul gwasanaeth**





**Diagram 2: Sgiliau Cymraeg fesul graddfeydd cyflog**



## Hyfforddiant iaith Gymraeg

Yn ystod y cyfnod adrodd, mynychodd 55 aelod o staff gyrsiau iaith Gymraeg ffurfiol ar wahanol lefelau.

**Tabl 4: Nifer staff yn derbyn hyfforddiant iaith Gymraeg**

| Cymhwyster | Nifer |
|---|---|
| Mynediad / Sylfaen | 21 |
| Canolradd | 14 |
| Codi Hyder | 6 |
| Gloywi | 8 |
| Allanol / Astudio annibynnol | 6 |

Mae'r Cyngor yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin, gan alluogi darpariaeth hyblyg sydd wedi'i theilwra i anghenion gweithredol gwasanaethau. Mae cynnwys rheolwyr llinell yn yr hyfforddiant hwn yn cefnogi defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, nid dysgu damcaniaethol yn unig.

Derbyniodd 99 o staff newydd Groeso Cymraeg – sef gwybodaeth am ddyletswyddau ac amcanion iaith Gymraeg y Cyngor – drwy'r cynllun anwytho sy'n gynnydd sylweddol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Treialwyd sesiwn ymwybyddiaeth iaith Gymraeg newydd, gyda'r bwriad o'i ehangu i'r holl weithlu.

## Iaith hyfforddiant

Mae'r Cyngor yn parhau i gryfhau ei drefniadau ar gyfer cofnodi cyfrwng iaith hyfforddiant mewnol  Er bod cyfyngiadau technegol presennol o fewn y system Adnoddau Dynol, mae addasiadau gweithredol wedi'u cyflwyno i sicrhau bod y data mor gywir a chyfredol â phosibl.

Yn ystod 2025/26:
- Mynychodd 45 aelod o staff hyfforddiant a gynhigiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mynychodd 1,180 aelod o staff hyfforddiant dwyieithog.

Mae'r niferoedd hyn yn cynrychioli:
- dyblu yn y nifer a fynychodd hyfforddiant Cymraeg yn unig ers y llynedd, a
- cynnydd o 19% mewn hyfforddiant dwyieithog, sy'n adlewyrchu dull hyblyg a chost-effeithiol sy'n diwallu anghenion amrywiol y gweithlu.

## Recriwtio

Mae'r Cyngor yn parhau i weithredu ei fframwaith sgiliau iaith ar gyfer pob swydd. Yn ystod y flwyddyn, hysbysebwyd swyddi newydd a swyddi gwag ar draws pob lefel ieithyddol, gyda phob swydd yn cynnwys gofyniad iaith priodol.

**Tabl 5: Swyddi a hysbysebwyd yn ôl lefelau'r fframwaith sgiliau iaith**

| | Nifer |
|---|---|
| Lefel 1 | 35 |
| Lefel 2 | 12 |
| Lefel 3 | 175 |
| Lefel 4 | 80 |
| Lefel 5 | 172 |
| Sgiliau iaith Gymraeg ddim yn angenrheidiol | 0 |

# Atodiad tri: Cefndir yr adroddiad

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sy'n gosod dyletswydd ar y Cyngor i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae'r safonau hyn yn nodi sut y dylai'r Cyngor ddefnyddio ac ystyried y Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd. Eu prif egwyddorion yw gwneud yn siŵr nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn bywyd cyhoeddus, bod yr iaith yn cael eu hybu, a bod cyrff cyhoeddus yn hwyluso defnydd ohoni.

Derbyniodd y Cyngor Hysbysiad Cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg yn 2015, sy'n nodi'r union safonau y mae'n rhaid i ni gydymffurfio â nhw. Mae cyfanswm o 160 o safonau'n berthnasol i'r Cyngor. Ceir rhagor o fanylion am y safonau a'n trefniadau i gydymffurfio â nhw ar wefan ein gwefan.

Polisi Iaith Gymraeg y Cyngor sy'n egluro sut y caiff y safonau eu rhoi ar waith. Mae'r polisi'n seiliedig ar yr egwyddor bod gan y Gymraeg a'r Saesneg statws cyfartal, ac mae'n cydnabod cyfrifoldeb y Cyngor i ddiogelu a hyrwyddo'r Gymraeg, yn fewnol gyda'n staff a'n haelodau ac yn allanol wrth ddelio efo'r cyhoedd.

Y Rheolwr Polisi a'r Gymraeg yn gyfrifol am arwain ar gydymffurfiaeth â'r safonau a hyrwyddo'r iaith o fewn y Cyngor. Mae'r Prif Weithredwr yn cadw trosolwg strategol, gyda chefnogaeth aelod portffolio a grŵp llywio o gynghorwyr a swyddogion.

Yn unol â gofynion y safonau, mae'r Cyngor yn cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n nodi sut y mae wedi cyflawni ei ddyletswyddau'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys data penodol ar gwynion, sgiliau Cymraeg staff, hyfforddiant a swyddi a hysbysebwyd.

Derbyniwyd yr adroddiad gan Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor, cafodd ei graffu gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, a'i gymeradwyo'n derfynol gan yr aelod portffolio perthnasol.

This page is intentionally left blank

03/2026

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 09.06.2026 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA), 2025-26 |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng. Sonia Williams |

## 1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?

| **Aelod Portffolio** | **Rôl** |
|---|---|
| Cynghorydd Dafydd Roberts | Deilydd Portffolio Addysg a'r Iaith Gymraeg |
| **Swyddog Gwasanaeth (yn cefnogi)** | **Rôl** |
| Mr Owen Davies | Uwch Reolwr |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y mater er mwyn darparu sicrwydd a herio ar berfformiad CSGA 2024–25 yn erbyn y 7 Deilliant, nodi'r prif risgiau (gan gynnwys cynaladwyedd cyllid a thrafnidiaeth), ac i gytuno ar y dull o rannu'r data a'r dysgu gyda rhanddeiliaid.

## 3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac argymhellion

☒Er sicrwydd
☐Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☒Er gwybodaeth

Argymhelliad(ion):
Derbyn diweddariad ar ddata 2024-2025 CSGA Ynys Môn, a chynnig dull o rannu'r wybodaeth hon.
Derbyn drafft o'r Polisi Iaith Addysg ar gyfer ymgynghoriad ag ysgolion.

## 4. Sut mae'r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

Amcan 1-Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith
Amcan 3-Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.

## 5. Themâu sgriwtini allweddol

Y meysydd allweddol ddylai'r Pwyllgor Sgriwtini ganolbwyntio arnynt:



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

1. Y 7 Deilliant sydd yn ein CSGA.
2. Y gwaith ehangach gan y Siarter Iaith.
3. Datblygiadau diweddar.
4. Risgiau a heriau.
5. Camau nesaf.

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

Crynodeb Gweithredol:

1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi perfformiad CSGA Ynys Môn dros 06/2025–06/2026 ac yn amlygu'r prif ddatblygiadau, risgiau a chamau nesaf.
2. Defnydd effeithiol o gyllid (Grant Addysg Awdurdod Lleol (GAALI)/Grant y Gymraeg 2050) i gynnal canolfannau iaith a chryfhau ymgysylltu gydag ysgolion uwchradd.
3. Cefnogaeth lwyddiannus i geisiadau grant 'capasiti'r gweithlu' a phartneriaeth â Choleg Menai i fodelu a datblygu addysgeg ddwyieithog.
4. Cynnydd mewn gweithgareddau datblygu (e.e., Taith i Iaith, grwpiau prosiect CSGA mewn ysgolion, a chydweithio â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol).
5. Gall unrhyw newid posibl i'r grant ar ôl 2026 beryglu parhad y ddarpariaeth (yn enwedig canolfannau iaith a chefnogaeth uwchradd).
6. Costau trafnidiaeth (tacsis) yn cynyddu, gyda goblygiadau ariannol a charbon, ac angen dulliau hirdymor i ostwng costau.
7. Heriau recriwtio/hyfedredd iaith a'r risg nad yw trefniadau uwchradd yn cynyddu'r cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf.

Mae'r Gwasanaeth Dysgu'n defnyddio arian GAALI o dan is-bennawd Grant y Gymraeg 2050 i gefnogi canolfannau iaith ac yn defnyddio arian grant i gynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer ymgysylltu ag ysgolion uwchradd. Os bydd newid i'r grant ar ôl 2026, bydd risg i'r ddarpariaeth hon.

Angen ystyried costau cynyddol trafnidiaeth (tacsis) ac ail-ymweld â'r syniadau creadigol sy'n torri costau yn yr hirdymor ac yn arddangos ymrwymiad y cyngor i fod yn garbon niwtral.

Mae'r uwch reolwr yn cefnogi ysgolion i gyflwyno ceisiadau am grant cynyddu capasiti'r gweithlu. Rydym wedi bod yn llwyddiannus yn flaenorol i gefnogi cais Ysgol Uwchradd Caergybi ac wedi cefnogi cais eto eleni. Mae'r arian hwn yn golygu bod cydweithio rhwng yr ysgol ac aelodau tîm iaith Coleg Menai i gefnogi datblygiad proffesiynol drwy fodelu a datblygu addysgeg addysgu dwyieithog.

Mae data CSGA (Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg) yn adrodd ar sefyllfa'r Gymraeg mewn addysg yn Ynys Môn dros y cyfnod 06/25-06/26. Mae adroddiad 2025 yn nodi sefydlogrwydd deilliannau 1, 2, 3, 5 a 6 a thwf yn neilliant 4 a 7.

<table>
<tr><th>Deilliant</th><th>Statws 2024-2025</th></tr>
<tr><td>

- Deilliant 1 - Mwy o blant meithrin/tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. **2026 – 100%**

</td><td>Cadarn</td></tr>
<tr><td>

- Deilliant 2 - Mwy o blant dosbarth derbyn/pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. **2026 – 100%**

</td><td>Cadarn</td></tr>
<tr><td>

- Deilliant 3 - Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall. ***(Nid yw unrhyw ysgol yn adrodd ar ddata asesiadau yn genedlaethol erbyn hyn). Er hyn, mae cynlluniau gan bob ysgol i fonitro sgiliau llafaredd, darllen ac ysgrifennu disgyblion.***

</td><td>Cadarn</td></tr>
<tr><td>

- Deilliant 4 - Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. Cynnydd/**Gostyngiad i (67%). Mae’r ganran hon yn seiliedig ar ysgolion yn cofrestru ychydig yn llai o blant i TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf ac efallai mwy i Ail Iaith (er mwyn creu’r amodau gorau i bob plentyn dderbyn y graddau gorau posibl).**
- **Data Ynys Môn TGAU 2025/26.**

<table>
<tr><th colspan="2">Nifer y disgyblion sy’n cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg 99.9%</th></tr>
<tr><td>TGAU Iaith Gyntaf 66.2%</td><td>TGAU Ail Iaith 34%</td></tr>
</table>

**Cynnydd TGAU Ynys Môn 2022-2028**

<table>
<tr><th>2022</th><th>2023</th><th>2024</th><th>2025</th><th>2026</th><th>2027</th><th>2028</th></tr>
<tr><td>68.1%</td><td>70.4%</td><td>68.46%</td><td>66.91%</td><td>66.20%</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td colspan="7">Cynllun i gynyddu canran y cynnwys twf yn y nifer o ddisgyblion Ysgol Uwchradd Caergybi sy’n symud drwy’r ysgol yn y ffrwd Gymraeg.</td></tr>
</table>

</td><td>Cadarn – gostyngiad o 0.71 o’r llynedd</td></tr>
<tr><td>

- Deilliant 5 - Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol. **Tystiolaeth gan Swyddog Siarter Iaith yn dangos bod cyfleoedd cyfoethog ar gael i ddisgyblion ddefnyddio’r Gymraeg y tu hwnt i’r dosbarth, e.e., adnoddau gemau buarth a phodlediadau plant am Gwpan y Byd.**

</td><td>Cadarn</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| • Deilliant 6 - Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ("ADY"). **2026 – 100%** | **Cadarn** |
| • Deilliant 7 - Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg. **Cynnydd eleni efallai'n adlewyrchu newidiadau i'r gweithlu.** | **Cadarn – gostyngiad bach** |

| 2022 | 2023 | 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 89.03% | 90.57% | 93.36% | 89.91% | 89% | | |
| Nifer o staff y gweithlu wedi gadael yn sgil prosesau cyllidol ysgolion a heriau athrawon llanw yn golygu bod gostyngiad bach. Er hyn, mae targedu pwrpasol wedi digwydd i gefnogi athrawon ar draws yr ynys. (Gweler adroddiad Canolfan Dysgu Cymraeg isod). | | | | | | |

**'Cadarn' yn ieithwedd Estyn yn golygu da.**

Gweler atodiadau ar ddiwedd y ddogfen ar gyfer data CSGA Ynys Môn 2024-2025. Bwriedir rhannu'r data hwn gyda: Pwyllgor Sgriwtini, Fforwm Iaith a chreu adroddiad statudol blynyddol i Lywodraeth Cymru (Gorffennaf).

**Datblygiadau diweddar:**

**Gwasanaeth Dysgu**
Mae uwch reolwr wedi datblygu safle ar wefan y cyngor i gefnogi rhieni a gofalwyr Ynys Môn, ble bydd datblygiadau am fanteision addysg cyfrwng Cymraeg yn cael llwyfan i hyrwyddo'r iaith. Mae'r uwch reolwr wedi derbyn adborth ar dempled adroddiad blynyddol y llywodraeth gan ddatblygu mwy o ddata meintiol ar gyfer pob deilliant.

Gweler y ddolen isod:
Addysg drwy'r iaith Gymraeg
Welsh language education

**Blynyddoedd Cynnar**

- Yn ystod y flwyddyn, mae pob un lleoliad yn gweithredu cynllun i gwblhau'r gofynion ac yn awyddus i dderbyn eu plac gwobr er mwyn symud ymlaen i'r wobr aur.

| Gwobr Taith i Iaith Ynys Môn | Aur | Arian | Efydd |
|---|---|---|---|
| 2022-2023 | 0 | 0 | 10 |
| 2023-2024 | 0 | 22 | 12 |
| 2024-2025 | 9 | 21 | 1 |
| 2025-2026 | 13 | 18 | 5 |

**Cynradd ac Uwchradd**

- Dros y flwyddyn hon, mae tair ysgol wedi rhoi cais am gymorth ychwanegol ar gyfer y Gymraeg. Mae uwch reolwr y gwasanaeth wedi cydweithio ar ffurfio Grŵp Prosiect CSGA yn y tair ysgol. Mae'r grŵp yn cynnwys penaethiaid, athrawon, llywodraethwyr, uwch reolwr, swyddogion y Ganolfan Iaith a'r Siarter iaith ac aelodau ategol strategol megis Cyfarwyddwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.
    - **Ysgol Uwchradd Caergybi**
        - Mae Grŵp Prosiect CSGA Ysgol Uwchradd Caergybi yn gorchwylio datblygiadau i gynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog. Eleni, mae 1 dosbarth dwyieithog ym mlwyddyn 8 ac 1 ym mlwyddyn 7, ac mae swyddog y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar safle'r ysgol yn cefnogi hyfedredd iaith aelodau staff.

          **Data crynodol**

          | | **Nifer o blant mewn ffrwd Cat 3 (Categori 3 Cyfrwng Cymraeg sef dros 70% o brofiadau plentyn drwy'r Gymraeg)** |
          |---|---|
          | **2023-2024** | **0** |
          | **2024-2025** | **30** |
          | **2025-2026** | **60** |

        - Yn ychwanegol, mae uwch swyddog wedi cefnogi dirprwy bennaeth cynorthwyol i lunio cais am arian cynyddu capasiti i barhau cydweithio â Sgiliaith Coleg Menai.
    - **Ysgol Llanfawr**
        - Grŵp wedi'i sefydlu gyda ffocws ar ethos, cwricwlwm a chefnogi addysgeg ddwyieithog. Yn dilyn ymweliad Estyn, mae'r ysgol yn parhau i ystyried adborth bod arweinwyr yn arddel prosesau hunanwerthuso yn gadarn, sy'n galluogi gwelliannau yn y ddarpariaeth er lles a chynnydd disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau dros amser. Drwy ddatblygu'r Gymraeg gan ddefnyddio iaith arwyddo, mae cymhelliant ac ymdrech mwyafrif y disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg ar lafar mewn gwersi'n datblygu'n briodol. Er hyn, nid yw'r ddarpariaeth bob tro'n rhoi cyfleoedd cyson a chydlynus i'r disgyblion ddefnyddio a datblygu'r Gymraeg mewn

sefyllfaoedd amrywiol yn ddigon effeithiol. Bydd uwch reolwr y dalgylch yn cefnogi'r ysgol gyda'r flaenoriaeth hon.

- **Ysgol Santes Fair**
  - Grŵp wedi'i sefydlu gyda ffocws ar gefnogi'r gweithlu, addysgu dwyieithog a phrofiadau Siarter iaith. Yn ystod y flwyddyn hon, mae cyrsiau wedi cefnogi aelodau staff unigol a thorfol i ddatblygu hyfedredd iaith, gan gynnwys cyrsiau i gymorthyddion hefyd.
  - Yn ogystal â hyn, mae Delyth Gwyn o'r Ganolfan Iaith yn ymweld 1 diwrnod yr wythnos i gefnogi addysgeg trochi i flynyddoedd cynnar yr ysgol i gynyddu'r nifer o blant sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg.

**Trosglwyddo Gwybodaeth o un Cyfnod Addysg i'r Nesaf a Gwaith y Ganolfan Iaith**

- Mae taenlen casglu gwybodaeth/trosglwyddo o Bl.6 i Bl.7 eisoes yn cynnwys gwybodaeth am garfannau iaith y dysgwyr. Bydd yr ysgolion uwchradd yna'n anfon proffil dienw o garfannau iaith eu hysgol i'r cydlynwyr iaith dalgylch. Mae hyn yn debygol o gryfhau cysondeb data ar draws y dalgylch ac yn cefnogi monitro a chynllunio o fewn cyd-destun Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA).
- Mae Canolfannau Iaith Môn yn hanfodol i sicrhau bod newydd-ddyfodiaid yn derbyn ymyrraeth drochi'n amserol. Rydym wedi cydbwyso'r gyllideb Cymraeg 2026 i sicrhau parhad i'r gwasanaeth hwn er bod heriau cyllidol yn gofyn i ni fonitro'n astud bob blwyddyn.
- Mae defnydd o'r arian Grant Addysg Awdurdod Lleol (AALl) hwn i gynnal 2 ganolfan lawn amser ac 1 aelod ychwanegol ar safle Ysgol Uwchradd Caergybi wedi golygu bod 96 o ddisgyblion cynradd a 30 o ddisgyblion uwchradd wedi derbyn ymyrraeth drochi i'r Gymraeg.

**Siarter Iaith Ynys Môn**

Mae 38 o ysgolion cynradd Môn yn rhan o'r Siarter Iaith a 5 ysgol uwchradd. Mae llawer o drafodaethau wedi digwydd o fewn y sir ac adnoddau a dogfennau newydd wedi eu rhannu gyda'r ysgolion ers ail-lansio'r siarter ym mis Medi 2024. Mae 2 ysgol wedi gwneud cais ar gyfer y gwobrwyo 2025-26, gyda'r dilysu'n digwydd yn ystod tymor yr haf 2026 a thu hwnt.

Mae nifer fawr o ysgolion wedi cael ymweliad yn ystod y flwyddyn, gan amrywio o'r gwasanaeth Siarter Iaith, hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith ac ymweliadau cefnogi.

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd yn ystod y flwyddyn 2025-26 gyda chydlynwyr clwstwr o fewn yr awdurdod lleol er mwyn cydweithio ar y gefnogaeth i ysgolion. Rhoddwyd arweiniad clir ynglŷn â rhaglen waith y cydlynwyr ar gyfer gwariant Grant y Gymraeg, a chafwyd prosiectau llwyddiannus ym mhob un o'r dalgylchoedd. Sicrhawyd cefnogaeth i bob ysgol i weithredu arian y grant ac i fonitro effaith.

Er enghraifft, mae dalgylch Caergybi wedi cyflwyno gwefan lle bydd mynediad at gynllun Drilio'r Iaith Dalgylch. Mae'r wefan yn cynnwys yr holl adnoddau ac arferion da ar draws y

dalgylch ac yn wefan i rannu adnoddau er mwyn ffocysu ar elfennau o'r Siarter Iaith a hyfedredd llafaredd.


Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd cyfres o drafodaethau strwythuredig â chynrychiolwyr o bob dalgylch ysgolion. Nod y gwaith hwn oedd cryfhau trefniadau cydweithredu a sicrhau dull cyson ar draws y clwstwr o ran rhannu ac ymledu arferion effeithiol. I gefnogi llywodraethu a thryloywder, rhannwyd templed cyflwyno safonol a chanllawiau cofnodi er mwyn sicrhau bod gwerthusiad ac effaith defnydd y grant yn cael eu dogfennu mewn ffordd glir, gymaradwy a hawdd ei hadrodd i randdeiliaid a phwyllgorau.

Arweiniodd hyn yn llwyddiannus at gysondeb gweithredu ar draws yr awdurdod. Cynlluniwyd gweithgareddau i gyfoethogi profiadau disgyblion cynradd ac uwchradd ar draws y sir. Rhannwyd arferion da gydag ysgolion, a thraciwyd effaith y gweithredu mewn cyfarfodydd cydlynwyr iaith dalgylch yn ystod y flwyddyn er mwyn gallu enghreifftio arferion da ac adnabod camau datblygu nesaf.

Er enghraifft, mae Dalgylch Cefni wedi cynllunio rhaglen dros y flwyddyn i ddatblygu hyfedredd staff i ddefnyddio dulliau effeithiol o ddatblygu sgiliau ysgrifennu trwy weithredu'r dull 'Talk for Writing' ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn golygu y bydd safonau ysgrifennu'n cael blaenoriaeth ar y cyd â sgiliau darllen a llafaredd.

Cynhaliwyd trafodaethau rheolaidd rhwng Swyddog Siarter Iaith Cynradd/Uwchradd, swyddogion Menter Môn ac asiantaethau eraill megis yr Urdd er mwyn sicrhau cydweithio llwyddiannus a llwyfannau priodol i amlygu'r holl waith sydd wedi'i gynhyrchu gan yr ysgolion. Mae un ysgol gynradd wedi bod yn rhan o brosiect Llafar Gwlad sy'n cyfeillio tair ysgol o wahanol siroedd yng Nghymru i ddatblygu sgiliau llafar disgyblion. Prosiect llwyddiannus gydag adborth cadarnhaol. Hefyd, bu un ysgol gynradd yn llwyddiannus wrth ennill y wobr Siarter Iaith Aur (Ysgol Parc Y Bont) gydag ysgolion eraill ar fin eu dilysu.

**Cydweithio â’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**




Yn Ynys Môn, rydym yn cydnabod bod meithrin cariad gydol oes at y Gymraeg yn dechrau gydag addysg arloesol a hygyrch. O fewn cyd-destun CSGA mae’r cydweithrediad â’r Ganolfan wedi bod yn elfen bwysig wrth gryfhau’r continwwm rhwng addysg ffurfiol a chaffael iaith yn y gymuned, gan gyfrannu at sicrhau taith ddilyniannol a chydlynol i ddysgwyr o bob oed.

Yn ychwanegol, tynnir sylw at natur agos a chynlluniedig y bartneriaeth rhwng Gwasanaeth Dysgu Môn a’r Ganolfan Genedlaethol, yn benodol o ran cymorth wedi’i dargedu i gefnogi grwpiau CSGA mewn ysgolion penodol, yn unol â Deilliant 7 o fewn y cynlluniau perthnasol. Trwy’r bartneriaeth hon, rydym wedi datblygu fframweithiau cymorth ieithyddol dwys wedi’u teilwra ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi, Ysgol Llanfawr ac Ysgol Santes Fair. Mae'r gefnogaeth a ddarparwyd i staff yn yr ysgolion hyn drwy'r ganolfan fel un sydd wedi trawsnewid pethau’n sylweddol wedi cynyddu hyder yn y Gymraeg yn sylweddol ac wedi gwella eu gallu i addysgu a dysgu’n effeithiol trwy gyfrwng y ddwy iaith. Yn ogystal â chefnogi grwpiau dwys ysgolion sydd naill ai’n trosi i gategori 3 cadarn dros amserlen

benodol, mae hefyd cynnig cyffredinol i bob ysgol. Enghraifft dda yw'r cydweithio i gefnogi cymorthyddion ar draws yr ynys i gefnogi addysg ddwyieithog a chodi hyder mewn defnydd proffesiynol o'r Gymraeg.

Yn strategol, mae'r cydweithrediad hwn yn cefnogi arweinyddiaeth yr iaith Gymraeg ar Ynys Môn ac yn cyfrannu'n uniongyrchol at gryfhau capasiti a safonau o fewn ysgolion. Wrth i hyder staff dyfu, maent yn gallu cynyddu canran yr addysg a gyflwynir trwy gyfrwng y Gymraeg, gan sicrhau bod ein disgyblion yn ffynnu mewn amgylchedd hollol ddwyieithog. Rydym wedi ymrwymo i ddyfnhau'r bartneriaeth hon i warantu cymuned Gymraeg fywiog i genedlaethau'r dyfodol, gyda ffocws ar gynaliadwyedd, cysondeb a mesur effaith, er mwyn cefnogi cymuned Gymraeg fywiog i genedlaethau'r dyfodol.

**Effaith Strategol**

- Aliniad Arweinyddiaeth Uniongyrchol: Aliniad 100% rhwng Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yr awdurdod lleol a mentrau'r ganolfan.
- Datblygu'r Gweithlu: Cynnydd mesuradwy yng nghanran y staff addysgu sy'n cyrraedd lefelau hyfedredd uwch yn y Gymraeg.
- Llwyddiant i geisiadau arian grant (capasiti gweithlu) i gefnogi cynlluniau ysgolion yn ehangach.

**Safonau Ysgolion ac Addysgeg**

- Cynnydd mewn Cyflwyno trwy Gyfrwng y Gymraeg: Cynnydd cyfartalog yn y ddarpariaeth cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws yr ysgolion targed.
- Canlyniadau Disgyblion: Tystiolaeth gan Swyddog y Ganolfan yn nodi fod gwell ymgysylltiad disgyblion a chanlyniadau asesu ym modiwlau'r Gymraeg oherwydd mwy o hyder staff yn yr ysgolion sy'n cydweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg.
- Cydweithio agos a defnydd strategol o ddata SWAC (Cyfrifiad Blynyddol Gweithlu Addysg) a thrafodaethau gyda'r Gwasanaeth Dysgu ar flaenoriaethau ysgolion.

**CYDWEITHIO MENTER MÔN AG YSGOLION**

Roedd Gŵyl y Fenai (Mawrth 27) yn enghraifft nodedig o waith dan arweiniad disgyblion Ysgol Gyfun David Hughes a'r grŵp Cymreictod yn benodol. Mynychodd 386 o bobl y digwyddiad, gyda chefnogaeth 15 o wirfoddolwyr gan gynnwys disgyblion a staff yr ysgol. Roedd trefniadaeth yr ŵyl yn cael ei llywio'n llwyr gan leisiau'r disgyblion, gan gynnwys dewis yr artistiaid, y lleoliad, prisiau tocynnau a'r stondinau bwyd a diod. Roedd yr ŵyl yn llwyddiant arbennig gan roi cyfle i'r disgyblion hyrwyddo gŵyl gerddoriaeth Gymraeg (gan gynnwys ymddangosiadau yn y cyfryngau ac ymweliadau ag ysgolion cynradd i hyrwyddo'r digwyddiad) a darparu mynediad i gynulleidfa mewn ardal na fyddai'n arfer blasu digwyddiad o'r fath.

Cynhaliwyd pum gorymdaith Dydd Gŵyl Dewi ar draws yr ynys, gyda 32 o ysgolion yn cymryd rhan a chyfanswm o 2,056 o ddisgyblion. Amcangyfrifwyd bod 1,150 o bobl yn bresennol ar y strydoedd, gyda'r niferoedd uchaf yn Llangefni a Phorthaethwy yn dod

ynghyd i ddathlu ein hiaith, ein diwylliant a'n treftadaeth. Roedd yr adborth gan rieni, trigolion a pherchnogion siopau yn hynod gadarnhaol, a thynnwyd sylw at werth ieithyddol, cymdeithasol ac economaidd y dathliadau.

Trefnwyd gig yn Pontio ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 dalgylch ysgolion Llangefni ar y cyd â Gwasanaeth Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn, gyda 203 o ddisgyblion yn mynychu. Roedd y gig yn rhoi cyfle i blant ddod i adnabod ei gilydd cyn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd leol, gyda'r disgyblion yn arwain ar benderfyniadau allweddol megis dewis artistiaid, lleoliad a dyddiad. Roedd yr adborth gan randdeiliaid yn gadarnhaol iawn, gyda bwriad clir i ddatblygu'r digwyddiad yn fenter flynyddol gynaliadwy.

Menter Môn sy'n cynnal sesiynau wythnosol Theatr Ieuenctid Môn (TIM). Rhoi cyfle i bob unigolyn yw rhan greiddiol o weledigaeth TIM. Mae'r aelodau'n hanu o 14 o ysgolion cynradd, uwchradd ac adrannau addysg arbennig ym Môn. Mae'r sesiynau wedi cynnwys gweithdai creu gwisgoedd a DJ-io. Mae llais yr aelodau yn greiddiol i'r sesiynau ac maent yn paratoi at fod yn rhan greiddiol o seremonïau Eisteddfod yr Urdd. Cawsant fod yn rhan o bantomeim Theatr Fach Llangefni. Roedd yn llwyddiant ysgubol, gyda 6 tiwtor yn cefnogi 57 o blant a phobl ifanc i berfformio mewn 9 pantomeim i 972 o aelodau cynulleidfa.

Mae adain addysg arbennig y prosiect, a gyflawnir ar y cyd â Chanolfan Addysg y Bont yn Llangefni, yn parhau i ddatblygu'n gadarnhaol. Mae'r tiwtoriaid yn ymgysylltu â thros 20 o bobl ifanc wythnosol, gan ddefnyddio'r celfyddydau i feithrin ymdeimlad o berthyn. Ym mis Tachwedd, crëwyd profiad synhwyrol ar thema Môr-ladron, a gyflwynwyd i holl ddisgyblion y ganolfan drwy berfformiad a gweithgareddau rhyngweithiol. Yn ogystal, cefnogir disgyblion uwchradd ag anghenion dysgu ychwanegol i greu perfformiad theatrig ar gyfer Eisteddfod yr Urdd, gan feithrin hyder, sgiliau creadigol, gwaith tîm ac egwyddorion cyd-greu.

Mae sesiynau Rhwydwaith Perfformwyr Ifanc (dan ofal aelod staff Menter Môn) yn parhau i roi llwyfan i'n cerddorion ifanc, ac 11 yn mynychu'n wythnosol. Drwy gydweithio â Medrwn Môn, cefnogwyd unigolion NEET (ddim mewn addysg), gan gynyddu hyder, sgiliau cymdeithasol a chyfranogiad creadigol. Roedd yr effaith bersonol ar gyfranogwyr yn amlwg ac yn gadarn.

**Risgiau sydd wedi'u hadnabod a mesurau lliniaru:**

- Bod gan ysgolion y capasiti i barhau i drochi ac i gymhathu newydd-ddyfodiaid i brif lif.
  Lliniaru: Cynnal mapio capasiti trochi fesul clwstwr a gweithredu protocol atgyfeirio pan fo'r galw'n rhagori ar y capasiti.

- Bod heriau ariannol yn golygu risg i strategaeth drochi'r ynys.
  Lliniaru: Blaenoriaethu a diogelu cyllideb graidd y ddarpariaeth drochi drwy adolygiad "gwerth am arian" blynyddol.

- Nad yw trefniadau ysgolion uwchradd yn cynyddu'r nifer sy'n cael eu cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf.

Lliniaru: Gosod targedau cofrestru clir fesul ysgol uwchradd a'u monitro'n dymhorol drwy ddata cofrestru a llwybrau cwricwlaidd.

- Bod heriau recriwtio'n golygu bod mwy o athrawon a staff angen cyrsiau dysgu Cymraeg neu loywi iaith.
  Lliniaru: Gweithredu rhaglen datblygu iaith ar gyfer y gweithlu, gyda blaenoriaeth i rolau allweddol.

- Bod grŵp prosiectau'r 3 ysgol ddim ar drac.
  Lliniaru: Cryfhau llywodraethu'r prosiect drwy adroddiad chwarterol yn erbyn cerrig milltir gyda chamau cywiro penodedig.

- Cyllid trafnidiaeth yn gynyddol heriol (rydym wedi ceisio am arian cyfalaf ar gyfer bws trydanol o dan berchnogaeth y cyngor).
  Lliniaru: Optimeiddio llwybrau a threfniadau cludo drwy adolygiad gweithredol o lwybrau a chontractau i leihau costau.

## 7. Asesiadau effaith

7.1. Asesiad effaith integredig (ystyriaethau cydraddoldeb, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, a'r Gymraeg) wedi ei gynnal?

☐Do
☒Naddo

Mae'r gweithgareddau trochi/canolfannau iaith, datblygu'r gweithlu a chynlluniau ysgolion yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar fynediad i addysg Gymraeg, ond gallai rhai grwpiau (e.e., dysgwyr ag ADY, dysgwyr sy'n newydd-ddyfodiaid, a theuluoedd heb Gymraeg) wynebu rhwystrau os nad yw'r gefnogaeth yn gyson rhwng dalgylchoedd neu os bydd cyllid yn lleihau.

Mesurau lliniaru:

- Blaenoriaethu parhad a chapasiti canolfannau iaith i sicrhau ymyrraeth drochi amserol i hwyr-ddyfodiaid/newydd-ddyfodiaid.
- Parhau i gryfhau darpariaeth Gymraeg ar gyfer ADY (gan nodi'r dyhead am gynnydd yn Neilliant 6) a chofnodi enghreifftiau o addasiadau rhesymol/cefnogaeth wedi'i thargedu.
- Sicrhau bod gwybodaeth i rieni/gofalwyr yn hygyrch ac yn eglur (gan adeiladu ar y wefan gorfforaethol newydd i gefnogi rhieni a gofalwyr).

7.2 Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Mae'r strategaeth yn cydnabod ardaloedd sydd angen mwy o gefnogaeth ac ar yr un pryd yn sicrhau bod systemau a disgwyliadau uchel ar draws yr ynys.

Mae’r CSGA yn gallu cael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb cyfleoedd drwy gynyddu mynediad at addysg Gymraeg a chefnogaeth trochi/canolfannau iaith. Fodd bynnag, gall unrhyw gyfyngiadau ar gapasiti neu adnoddau (e.e., newid i ffrydiau grant ar ôl 2026 neu bwysau costau darparu) arwain at lai o ddwysedd cefnogaeth, ac felly effeithio’n anghymesur ar ddysgwyr o gefndiroedd dan anfantais sy’n fwy dibynnol ar ddarpariaeth ysgol/ALI i gael profiadau Cymraeg cyson.

Mesurau lliniaru

- Blaenoriaethu’r ddarpariaeth sy’n cefnogi mynediad (trochi/canolfannau iaith a chefnogaeth i ysgolion), a sicrhau cyfathrebu hygyrch â rhieni/gofalwyr am opsiynau a chymorth ar gael.

7.3 Effeithiau posibl ar bobl sy’n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

Mae’r strategaeth yn cynnwys nifer o gynlluniau sy’n alinio i sicrhau eglurder ar ddyhead ac ymrwymiad y cyngor i filiwn o siaradwyr Cymraeg 2050. Bydd ail-gategoreiddio ysgolion yn sicrhau dealltwriaeth a statws Ynys Môn fel un o gadarnleoedd yr iaith a disgwyliadau rhieni o ran darpariaeth addysg ar draws yr ynys.

Mesurau lliniaru:

- Sicrhau cysondeb rhwng clwstwr/dalgylch wrth ddarparu cefnogaeth (Siarter Iaith, canolfannau iaith, hyfforddiant staff) a chofnodi effaith mewn ffordd syml a chymaradwy.
- Monitro tueddiadau cymwysterau Cymraeg (e.e., cydbwysedd iaith gyntaf/ail iaith) a chofnodi’r rhesymau addysgol dros unrhyw newidiadau i gofrestru.

7.4 Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg

Positif / Niwtral / Negyddol a sut.

Mae’r ddibyniaeth ar drafnidiaeth (gan gynnwys tacsis) i gefnogi mynediad at ddarpariaeth (e.e., canolfannau iaith) yn gallu cynyddu allyriadau a chostau.

Mesurau lliniaru:

- Adolygu llwybrau a modelau cludiant i leihau milltiroedd (cydlynu teithiau, rhannu cludiant, a chynllunio yn ôl galw).
- Blaenoriaethu opsiynau is-garbon lle bo’n ymarferol (gan gynnwys y gwaith i geisio cyllid cyfalaf ar gyfer bws trydanol dan berchnogaeth y cyngor).

Mabwysiadu a gwireddu strategaeth newydd ar gyfer ‘Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu’r Iaith Gymraeg’, fel bod ysgolion yn addas i bwrpas ac yn gweithio tuag at statws carbon niwtral.

| |
|---|
| |

7.5 Effaith posibl ar darged Carbon Sero Net y Cyngor

| |
|---|
| Mabwysiadu a gwireddu strategaeth newydd ar gyfer 'Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg', fel bod ysgolion yn addas i bwrpas ac yn gweithio tuag at statws carbon niwtral. |

## 8 Goblygiadau ariannol

| |
|---|
| Mae'r Gwasanaeth Dysgu'n defnyddio arian GAALI o dan is bennawd Grant y Gymraeg 2050 i gefnogi canolfannau iaith ac yn defnyddio arian grant i gynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer ymgysylltu ag ysgolion uwchradd. Os bydd newid i'r grant ar ôl 2026, bydd risg i'r ddarpariaeth hon.<br><br>Angen ystyried costau cynyddol trafnidiaeth (tacsis) ac ail-ymweld â'r syniadau creadigol sy'n torri costau yn yr hirdymor ac yn arddangos ymrwymiad y Cyngor i fod yn garbon niwtral.<br><br>Mae'r uwch reolwr yn cefnogi ysgolion i gyflwyno ceisiadau am grant cynyddu capasiti'r gweithlu. Rydym wedi bod yn llwyddiannus y llynedd i gefnogi cais Ysgol Uwchradd Caergybi. Mae'r arian hwn yn golygu bod cydweithio rhwng yr ysgol ac aelodau tîm iaith Coleg Menai i gefnogi datblygiad proffesiynol drwy fodelu a datblygu addysgeg addysgu ddwyieithog. |

## 9 Atodiadau

| |
|---|
| Adroddiad dashfwrdd data CSGA gan yr Uned Ddata. |

## 10 Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir

| |
|---|
| Mr Owen Davies |

This page is intentionally left blank

## Deilliant 1

### Mwy o blant meithrin / tair oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

| | Cylchoedd Meithrin | EYW | Ysgolion Gynradd | Ysgolion Sefydledig | Ysgolion Pabyddol dan Gymorth Gwirfoddol |
|---|---|---|---|---|---|
| | 34 | 4 | 36 | 1 | 1 |
| % yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg | 100.00% | 100.00% | 100.00% | 100.00% | 100.00% |

## Deilliant 2

### Mwy o blant dosbarth derbyn / pump oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Nifer o Ddalgylchoedd: **5**

% yn derbyn asesiad Cymraeg iaith gyntaf: **100.00%**

Nifer o Sefydliadau Addysg Gynradd: **38**

% yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg: **100.00%**

Plant 5 oed yn derbyn eu haddysg drwy'r Gymraeg: **588**

% yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg: **100.00%**

## Deilliant 3

### Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall

Niferoedd y dysgwyr sy'n parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall

**Anstatudol**

Y Gymraeg mewn Addysg

English

Tudalen 50

Y Gymraeg Mewn Addysg

**Y Gymraeg Mewn Addysg**

## Deilliant 4

Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg

| | 2024-25 | 2025-26 |
|---|---|---|
| Nifer o Ddysgwyr | 451 | 458 |
| % y dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg | 66.91% | 66.28% |

## Deilliant 5

Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol

Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol

**Ar Drac**

## Deilliant 6

Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol

% o ddisgyblion cynradd / uwchradd sydd yn derbyn gwasanaeth yn gwbl ddwyieithog

**100.00%**

## Deilliant 7

Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

| | 2024-2025 | 2025-2026 |
|---|---|---|
| Nifer o Staff | 491 | 503 |
| % y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg | 89.11% | 89.18% |

## Outcome 1

More nursery children / three year olds receive their education through the medium of Welsh

| | Nurseries | EYW | Primary Schools | Foundation Schools | Voluntary Aided Catholic Schools |
|---|---|---|---|---|---|
| Number | 34 | 4 | 36 | 1 | 1 |
| % that provide education through the medium of Welsh | 100.00% | 100.00% | 100.00% | 100.00% | 100.00% |

## Outcome 2

More reception class children / five year olds receive their education through the medium of Welsh

| Catchment Areas | Number of Primary Education Settings | 5 year olds receiving their education in Welsh |
|---|---|---|
| 5 | 38 | 588 |
| % receiving a Welsh first language assessment: 100.00% | % that provide education through the medium of Welsh: 100.00% | % receiving their education through the medium of Welsh: 100.00% |

## Outcome 3

More children continue to improve their Welsh language skills when transferring from one stage of their statutory education to another

Number of learners continuing to improve their Welsh language skills when transferring from one stage of their statutory education to another

**Not Statutory**

→

Welsh in Education

Cymraeg



Welsh in Education

**Welsh in Education**

## Outcome 4

More learners study for assessed qualifications in Welsh (as a subject) and subjects through the medium of Welsh

**2024-2025**

Number of Learners: 451

% of learners studying for assessed qualifications in Welsh (as a subject) and subjects through the medium of Welsh: 66.91%

**2025-2026**

Number of Learners: 458

% of learners studying for assessed qualifications in Welsh (as a subject) and subjects through the medium of Welsh: 66.28%

## Outcome 5

More opportunities for learners to use Welsh in different contexts in school

Increasing opportunities for learners to use Welsh in different contexts in school

**On Track**

## Outcome 6

An increase in the provision of Welsh-medium education for pupils with additional learning needs

% of primary / secondary pupils receiving a bilingual service

**100.00%**

## Outcome 7

Increase the number of teaching staff able to teach Welsh (as a subject) and teach through the medium of Welsh

**2024-2025**

Number of Staff: 491

% of teaching staff able to teach Welsh (as a subject) and through the medium of Welsh: 89.11%

**2025-2026**

Number of Staff: 503

% of teaching staff able to teach Welsh (as a subject) and through the medium of Welsh: 89.18%

03/2026

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 09.06.26 |
| **Pwnc:** | Gwasanaeth ADY a Chynhwysiad 2025-26: sefyllfa gyfredol, heriau a chamau nesaf |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cynghorydd Sonia Williams |

## 1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?

| Aelod Portffolio | Rôl |
|---|---|
| Cynghorydd Dafydd Roberts | Aelod Portffolio ar gyfer Addysg |
| **Swyddog Gwasanaeth (yn cefnogi)** | **Rôl** |
| Aaron Cadwaladr Evans | Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Diben y papur hwn yw darparu sicrwydd a throsolwg o berfformiad presennol y Gwasanaeth ADY a Chynhwysiad, gan amlygu'r hyn sy'n gweithio, y prif heriau gweithredol, a'r risgiau sy'n cael eu rheoli.

## 3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac argymhellion

☒Er sicrwydd
☐Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☒Er gwybodaeth

Argymhelliad(ion):

**A1** Gofynnir i'r Pwyllgor gynnig sylwadau ar yr adroddiad am y Gwasanaeth ADY a Chynhwysiad 2025-26 a chynnig awgrymiadau ar effeithiolrwydd y cynnig i ysgolion Ynys Môn.

## 4. Sut mae'r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

Un o brif flaenoriaethau'r cyngor yw addysg. Mae Cynllun y Cyngor yn cynnwys uchelgais i sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol. Un o 3 nod y cynllun ydy "creu amodau a fydd yn galluogi pawb i gyrraedd eu potensial llawn" ac mae gwaith y



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

Gwasanaeth Dysgu a'r Bartneriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn cyfrannu at y nod hwn.

## 5. Themâu sgriwtini allweddol

Y meysydd allweddol ddylai'r Pwyllgor Sgriwtini ganolbwyntio arnynt:

1. Gwerth am arian.
2. Ansawdd y ddarpariaeth ADY.
3. Effeithiolrwydd gwasanaeth a ffocws ar y dysgwr.
4. Effaith ar sgiliau, cyflawniad a lles dysgwyr ag ADY.
5. Prif heriau / rheoli risgiau.
6. Camau nesaf.

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

**Cyd-destun:**

- Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) wedi dod i rym ers mis Medi 2021. Bu trosglwyddiad graddol, ac ers mis Medi 2025 mae pob dysgwr wedi trosglwyddo o dan y Ddeddf newydd.
- Sefydlwyd y Gwasanaeth ADY a Chynhwysiad ym mis Medi 2017 ar y cyd rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd. Mae'r gwasanaeth wedi esblygu dros y blynyddoedd ers hynny er mwyn ymateb i newidiadau yn y galw a'r cyd-destun ehangach. Cafodd ei adolygu'n allanol yn 2020, ac eto ym mis Rhagfyr 2023.
- Cafodd awdurdod Ynys Môn arolwg Estyn yn 2022.
- Mae pob ysgol yn derbyn cyllid i ddarparu ar gyfer dysgwyr gyda Chynllun
- Datblygu Unigol. Ers mis Mawrth 2025, mae pob ysgol yn derbyn cyllid ar sail fformiwla.
- Mae'r cytundeb presennol gyda Chyngor Gwynedd (Gwasanaeth ADY a Chynhwysiad Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd) yn dod i ben ar 31.08.2026, ac mae cyfnod o ymgynghori ynglŷn â strwythur y gwasanaeth ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn newydd ddod i ben. Owain Roberts fydd yn arwain y gwasanaeth hwn fel yr Arweinydd Strategol o fis Medi, ond mae hefyd yn cydlynu gwaith cynllunio a throsglwyddo i'r gwasanaeth newydd.

**Crynodeb Gweithredol**

Beth sydd wedi gweithio'n dda

- Cwblhawyd y trosglwyddo i'r trefniadau newydd yn llwyddiannus, gan gynnwys cydweithio ag ysgolion a cholegau i drosglwyddo dysgwyr i Gynlluniau Datblygu Unigol (CDU).

- Mae trefniadau datrys anghydfod wedi'u sefydlu, gyda nifer isel o achosion tribiwnlys y llynedd a'r mwyafrif wedi'u datrys.
- Mae trefniadau trosglwyddo ôl-16 wedi'u sefydlu ac wedi cael eu canmol gan bartneriaid, gyda diffyg anghydfodau rhwng pobl ifanc/rhieni a'r awdurdod.
- Mae mecanweithiau sicrwydd ansawdd ar waith ar gyfer adolygu CDUau a monitro darpariaeth, gyda chydweithio agos rhwng ysgolion a'r timau arbenigol.

Heriau allweddol

- Mae'r galw am gymorth a chymhlethdod anghenion yn cynyddu tra bo adnoddau'n prinhau, ac mae hyn yn cynyddu'r pwysau ar ysgolion (gan gynnwys baich gwaith y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CLADY)) a chapasiti'r gwasanaeth.
- Mae'r galw am leoliadau arbenigol yn parhau i gynyddu, gyda heriau i gynnal rhai dysgwyr dwys a chymhleth yn y prif lif yn sgil cyfyngiadau cyllidebol.
- Mae heriau recriwtio mewn rhai rolau arbenigol – yn enwedig seicolegwyr addysgol sy'n medru'r Gymraeg – sy'n elfen statudol allweddol o fewn y Ddeddf.
- O ran cynhwysiad, mae heriau parhaus ynghylch presenoldeb, gwaharddiadau a chynnydd mewn anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol mewn rhai cyd-destunau.

Prif gamau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau ADYaCh newydd Ynys Môn o fis Medi 2026:

- Gwneud y mwyaf o'r strwythur integredig rhwng y Gwasanaeth Dysgu a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd i ddatblygu ein darpariaethau trwy edrych ar anghenion dysgwyr a'u teuluoedd mewn ffordd holistaidd a gwybodus am drawma.
- Cydweithio gyda'r Fforwm ADYaCh a phartneriaid i leihau biwrocratiaeth, cryfhau trefniadau cydweithio a monitro'r drefn gyllido newydd.
- Parhau i fapio'r galw tebygol am ddarpariaeth arbenigol a chynllunio'n strategol o amgylch capasiti a mathau o ddarpariaeth.
- Datblygu'r ddarpariaeth cynhwysiant (gan gynnwys gwaith amlasiantaethol) a chynnal y ffocws ar ymyrraeth gynnar, presenoldeb a chymorth lles.
- Monitro perfformiad a'r prif dueddiadau drwy'r data er mwyn addasu'r ymateb yn unol â'r anghenion a'r capasiti sydd ar gael.

**ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL**

**Beth sydd wedi gweithio'n dda**

- Mae'r trosglwyddiad i'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 newydd wedi'i gwblhau mis Medi 2025 ac wedi bod yn llwyddiannus o ran:
- Cydweithio gyda'r ysgolion a'r colegau i drosglwyddo dysgwyr i
    - Gynlluniau Dysgu Ychwanegol o'r hen drefniadau Datganiadau yn llwyddiannus.

- Systemau datrys anghydfod gyda rhieni, ysgolion a'r swyddogion ansawdd ADY wedi eu sefydlu gyda 3 apêl tribiwnlys y llynedd, gyda dau yn cael eu datrys a'r awdurdod yn ennill y drydedd apêl.
- Sefydlu systemau trosglwyddo disgyblion ôl-16 i'r coleg yn llwyddiannus. Mae'r broses hon wedi cael ei chanmol gan y coleg a'r ysgolion, ac nid oes yr un achos o anghydfod rhwng pobl ifanc a/neu eu rhieni a'r awdurdod lleol.
- Parhau i gydweithio gyda'r Fforwm ADY Penaethiaid ac wedi sefydlu trefn gyllido newydd a pharhau i'w monitro gyda'r penaethiaid cynradd.
- Mae perthynas weithio glos rhwng yr ysgolion a'r timau ADYaCh, ac mae adnabyddiaeth dda o'r ddarpariaeth gan yr ALl.
- Mae cydweithio gyda'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd mewn perthynas â dysgwyr sy'n Blant Mewn Gofal dan yr awdurdod, ac mewn lleoliadau all-sirol o ran cynllunio a gweithredu ar y ddarpariaeth sydd wedi ei nodi yn y CDU.
- Mae cydweithio agos yn strategol ac yn weithredol gyda'r Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg ADY, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr sy'n sicrhau adnabyddiaeth gynnar o anghenion yn yr oed cyn-ysgol, ac wrth gwrs mae hyn yn rhan allweddol o'n prosesau cydweithio a datrys anghydfod gyda rhieni.
- Mae'r Cod yn nodi ei bod yn ofyn statudol i ysgolion a'r ALl 'gadw eu darpariaeth o dan adolygiad parhaus'. Mae hyn yn cynnwys dod i farn ynglŷn â pha mor effeithiol yw'r ddarpariaeth, a'r ymyraethau sy'n cael eu cynnig. Mae proses yn ei lle i sicrhau fod hyn yn digwydd. Mae'r broses adolygu CDUau yn llwyfan i'r Gwasanaeth Ansawdd fonitro'r darpariaethau ar y CDU. Mae'r timau arbenigol hefyd yn monitro cynnydd y dysgwyr sy'n derbyn eu mewnbwn yn dymhorol, gyda'r mwyafrif yn gwneud cynnydd da.
- Mae aelod o Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaeth ADY yn eistedd ar Fwrdd Cefnogi Amlasiantaethol Ysgolion yr awdurdod, ac mae hyn yn fodd i gadw llygaid ar ansawdd ADY.
- Rydym wedi sefydlu Fforwm Penaethiaid Cynradd ADY ers 2022. Mae gan y fforwm raglen waith, ac mae cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu.
- Mae gennym system CDU ar-lein. Mae Is-grŵp CDU wedi ei sefydlu fel bod llais yr ysgolion yn cael ei fynegi er mwyn sicrhau fod gwelliannau ymarferol i sicrhau lleihau baich gwaith y cydlynwyr ADYaCh yn ein hysgolion.

Heriau allweddol:

- Mae cyfrifoldeb statudol y Ddeddf ADY wedi ymestyn o ran elfennau cyfreithiol i lawr i'r haen isaf ym maes ADY. Oherwydd hyn, mae pwysau gwaith ar ysgolion wedi cynyddu o ran gwaith y CLADY, a hefyd y ddarpariaeth y mae ysgolion yn gorfod eu darparu. Mae hyn yn her i ysgolion, yn enwedig yn lle mae cyllidebau'n crebachu, a'r gallu i ryddhau'r CLADY i gyflawni'r rôl yn her.
- Mae anghenion disgyblion yn cynyddu ac yn gynyddol heriol ac yn ogystal mae adnoddau'n brin ac yn prinhau. Gwelir hyn o fewn ein hysgolion a hefyd i'r Tîm ADY

wrth i gyfeiriadau am wasanaeth gan yr ysgolion gynyddu'n sylweddol. Er bod grantiau ym maes ADY yn cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru, nid ydynt yn cyfateb i'r cynnydd hwn mewn gofyn ac nid oes sicrwydd o arian yn ailadrodd, felly mae'n anodd cynllunio'n strategol.

- Mae'r galw am leoliad arbenigol yn dal i gynyddu. Mae gennym ddysgwyr dwys a chymhleth sydd angen eu cefnogi yn y prif lif, ond mae'r her o wneud hyn yn cynyddu yn sgil cyllideb. Mae hyn yn gyrru rhieni i wneud ceisiadau am ysgol arbennig.
- Mae gallu ysgolion i benodi unigolion i swyddi fel cymorthyddion dysgu o fewn ysgol yn her, ac yn rhoi straen ar fap darpariaeth ysgolion pan fo swyddi gweigion.
- Mae'r drefn o hyfforddi seicolegwyr addysgol trwy Brifysgol Caerdydd yn effeithio ar ein gallu i recriwtio seicolegwyr addysgol sy'n medru'r Gymraeg.  Mae'n rôl statudol o fewn y ddeddf, ac yn rôl allweddol o ran adnabod y ddarpariaeth y mae'r dysgwyr ei hangen.

<u>Camau gweithredu a blaenoriaethau</u>

- Cydweithio ar raglen waith y Fforwm ADYaCh, er enghraifft:
    - Rhoi sylw i rôl y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol, lleihau biwrocratiaeth, a threfniadau cydweithio ar draws y dalgylchoedd
    - Monitro a gwerthuso'r drefn cyllido newydd
    - Sicrhau bod y gwasanaeth ADYaCh yn addasu i ymateb i ofynion ysgolion Ynys Môn.
- Parhau gyda'r gwaith o fapio'r galw tebygol am fathau gwahanol o ddarpariaethau arbennig, a chynllunio'n strategol o gwmpas hyn ac o gwmpas capasiti'r ysgol arbennig a'r math o ganolfannau ADY sydd gennym o fewn yr awdurdod.
- Rhoi sylw i'r angen am ddull hyfforddi ar gyfer seicolegwyr addysgol. Mae hyn yn cynnwys trafodaethau ynglŷn â llwybr hyfforddi yng ngogledd Cymru (Prifysgol Bangor).

**CYNHWYSIAD**

**Beth sy'n gweithio?**

- Mae'r gefnogaeth sy'n cael ei chynnig i ysgolion Ynys Môn yn eang, e.e., hyfforddiant, modelu, adnoddau a mewnbwn uniongyrchol.  Mae'r berthynas agos gyda'r ysgolion yn allweddol ar gyfer hyn.
- Mae'r gwasanaeth yn cynnig ystod o gefnogaeth i'r ysgolion i gynnal disgyblion sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol trwy dimau arbenigol, sef Cynnal Ymddygiad, Lles, Addysg Ddewisol yn y Cartref (ADdC) a Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY) ynghyd â lleoliad arbenigol i nifer fach o ddisgyblion sydd angen pecyn cefnogaeth pwrpasol i gyfarch anawsterau ymddygiadol.
- Ers diwedd 2021, mewn partneriaeth â'r ysgolion a Gwasanaethau Plant rydym wedi gallu sefydlu hybiau addysg o fewn y bum ysgol uwchradd er mwyn cefnogi disgyblion blwyddyn 10 ac 11 yn bennaf nad ydynt yn ymdopi yn y prif lif. Comisiynwyd adolygiad o'r model hwn yn Rhagfyr 2023 ac adnabuwyd cryfderau yn enwedig gyda'r

gwaith integredig/amlasiantaethol sy’n cyfoethogi’r ddarpariaeth a hefyd yn cynnig argymhellion er mwyn cryfhau ymhellach. Mae hefyd cydweithio agos, e.e., o gwmpas dysgwyr sy’n anodd eu lleoli oherwydd anghenion cymhleth emosiynol ac ymddygiadol.

- Mae ystod o hyfforddiant a mewnbwn yn cael eu darparu ar gyfer cefnogi mapiau darpariaeth yr ysgolion gan gynnwys ymyrraeth diogelwch a phecynnau ar gefnogi lles emosiynol disgyblion.
- Mae’r Grant Cronfa Ffyniant Gyffredin wedi ein galluogi i gefnogi dros 100 o ddisgyblion Ynys Môn oedd wedi eu hadnabod fel risg o fod yn NEET yn Ynys Môn (pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant) trwy wella sgiliau, llesiant ac iddynt gwrdd â’u llawn botensial.
- Mae gwella presenoldeb wedi bod yn ffocws cyson i Gyngor Sir Ynys Môn. Mae'r cysylltiad rhwng presenoldeb da a dysgu’n glir. Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i wella presenoldeb dros y flwyddyn ddiwethaf, gan ddyrannu oriau swyddogion lles ychwanegol drwy Grant Presenoldeb Llywodraeth Cymru i dargedu gwelliannau presenoldeb unigolion penodol o fewn ysgolion, yn enwedig disgyblion oedd ym mlwyddyn 11.
- Fodd bynnag, er y bu gwelliant dros amser (gweler isod), mae llawer o waith i'w wneud i gau'r bwlch ymhellach ac i atgyfnerthu gwelliannau mewn tuedd presenoldeb cadarnhaol, gan gynnwys yn enwedig gostyngiad mewn absenoldeb parhaus.
- Ledled Cymru, mae presenoldeb mewn ysgolion wedi dirywio ers dychwelyd i’r ysgol yn dilyn y pandemig ac yn araf yn gwella. Mae data presenoldeb Ynys Môn yn dangos cynnydd sy’n alinio â chynnydd siroedd eraill ar draws Gymru.

| Cyfartaledd YM (Medi 23 – Rhagfyr 23) | Cyfartaledd YM (Medi 24 – Rhagfyr 24) | Cyfartaledd YM (Medi 25 – Mawrth 26) | Cyfartaledd Cymru (Medi 23 – Rhagfyr 23) | Cyfartaledd Cymru (Medi 24 – Rhagfyr 24) | Cyfartaledd Cymru (Medi 25 – Mawrth 26) |
|---|---|---|---|---|---|
| 90.4% | 90.7% | 90.7% | 90.5% | 91% | 90.9% |

- Mae’r data presenoldeb uchod yn dangos tuedd o sefydlogi dros y cyfnodau a gyflwynir, gyda lefel Ynys Môn yn agos i gyfartaledd Cymru yn y cyfnod diweddaraf. Mae hyn yn gyson â’r darlun cenedlaethol ar ôl y pandemig, gyda heriau parhaus ond arwyddion o welliant graddol. Bydd y gwaith targedu gyda swyddogion lles, negeseuon i rieni a chefnogaeth gynnar i ysgolion yn parhau, gyda monitro parhaus.
- Mae hyfforddiant parhaus wedi arwain at gysondeb yn y gwasanaeth y mae’r ysgolion yn ei dderbyn, gyda mwy o waith targedu grwpiau penodol a ffocws ar gefnogaeth ymyrraeth gynnar.
- Ymddygiad/gwaharddiadau - Mae heriau amlwg yn parhau wrth fynd i’r afael ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol sylweddol disgyblion yn y cyfnod ar ôl y pandemig ac o ganlyniad, mae gwaharddiadau wedi bod ar gynnydd i gymharu â chyn y pandemig. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae’r niferoedd wedi bod yn uchel.

**Cynradd - Penodol**

| | 23/24 (Medi – Rhagfyr) | 24/25 (Medi – Rhagfyr) | 25/26 (Medi – Mawrth 26)* |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer ysgolion | 8 | 9 | 13 |
| Nifer cyfnodau | 33 | 50 | 58 |
| Nifer dyddiau | 78 | 78 | 114.5 |

**Cynradd- Parhaol**

| | 23/24 (Medi – Rhagfyr) | 24/25 (Medi- Rhagfyr) | 25/26 (Medi- Mawrth 26)* |
|---|---|---|---|
| Nifer ysgolion | 0 | 1 | 2 |

**Uwchradd – Penodol**

| | 23/24 (Medi – Rhagfyr) | 24/25 (Medi – Rhagfyr) | 25/26 (Medi – Mawrth 26)* |
|---|---|---|---|
| Nifer ysgolion | 5 | 5 | 5 |
| Nifer cyfnodau | 223 | 158 | 450 |
| Nifer dyddiau | 558 | 432 | 1132.5 |

**Parhaol (uwchradd)**

| | 23/24 (Medi – Rhagfyr) | 24/25 (Medi – Rhagfyr) | 25/26 (Medi – Mawrth 26)* |
|---|---|---|---|
| Nifer ysgolion | 3 | 3 | 4 |
| Nifer disgyblion | 9 | 9 | 17 |

*Cyfnod 7 mis yn hytrach na 4 mis

- Mae'r tueddiadau gwaharddiadau uchod yn adlewyrchu heriau parhaus o ran anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn y cyfnod ôl-bandemig, ac mae hyn yn rhoi pwysau ar gapasiti ysgolion i gynnal dysgwyr yn y prif lif. Mae'r ymateb yn cynnwys cymorth gan dimau arbenigol, gwaith amlasiantaethol lle bo'n briodol, a datblygiadau cynhwysiant megis hybiau addysg.
- Mae gwelliant wedi bod yn hyn dros y tymor diwethaf gyda'r nifer o ddyddiau wedi lleihau.
- Mae amser aros am fewnbwn cwnsela wedi gostwng.

**Heriau**

- Mae darparu ar gyfer dysgwyr gydag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn her lle mae adnoddau'n prinhau, ond anghenion cymdeithas yn cynyddu.
- Mae anghenion mwy cymhleth yn amlygu yn y cynradd, yn benodol ar ôl cyfnod Covid-19.
- Mae lefel y gwaharddiadau'n parhau'n uwch na'r lefel dymunol ac er bod presenoldeb yn gweld cynnydd, mae'n parhau fel blaenoriaeth uchel. Mae'r gwasanaethau cynhwysiant yn parhau i weithredu amrywiaeth o fentrau lles ac ymddygiad gyda chefnogaeth cyllid grant Llywodraeth Cymru (sy'n ychwanegol i'r gyllideb graidd).
- Mae ceisiadau am fewnbwn cwnsela, sydd eto'n adlewyrchu'r angen, yn cynyddu gyda phlant ieuengach. Mae hyn yn rhoi pwysau ar gapasiti'r tîm.

- Addysg Ddewisol yn y Cartref - Mae cynnydd yn y nifer o deuluoedd sy'n dod i benderfyniad i addysgu eu plant gartref. Nid yw hyn yn unigryw i Ynys Môn, ac yn batrwm yn genedlaethol. Mae gan y gwasanaeth brosesau cadarn ar waith i fonitro ynghyd â pherthynas dda gyda nifer uchel o'r teuluoedd.

Camau gweithredu a blaenoriaethau

- Manteisio ar y strwythur newydd rhwng y Gwasanaeth Dysgu a Gwasanaethau Plant a Theuluoedd i ddatblygu ein darpariaethau trwy edrych ar anghenion dysgwyr a'u teuluoedd mewn ffordd holistaidd sy'n wybodus am drawma. Bydd hyn yn cynnwys elfennau o'r gwaith sy'n cael ei amlygu uchod.
- Cydweithio'n agos gyda'r Fforwm ADYaCh, fel tîm integredig ar draws y cyngor a gyda'r bwrdd iechyd, i gryfhau'r ddarpariaeth. Mae hyn yn cynnwys creu darpariaeth arbenigol ar gyfer plant cynradd yn benodol, datblygu elfennau o'r ddarpariaeth hybiau uwchradd, ac ymyrraeth gynnar/mapiau darpariaeth ysgolion.
- Cydweithio gyda'r Fforwm ADYaCh ar elfennau cynhwysiad sydd yn y cynllun gweithredu.
- Datblygu'r ymgyrch presenoldeb er mwyn targedu cynnydd pellach mewn arferion presenoldeb, negeseuon i rieni, a rôl y swyddogion lles.
- Gwella ein prosesau ar gyfer ymgysylltu gyda theuluoedd sy'n dewis addysgu yn y cartref (Addysg Ddewisol yn y Cartref), er mwyn cryfhau'r cyswllt a'r cydweithio gyda'r teuluoedd hyn.

## 7. Asesiadau effaith

7.1. Asesiad effaith integredig (ystyriaethau cydraddoldeb, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, a'r Gymraeg) wedi ei gynnal?

☒Do
☐Naddo

Os naddo, eglurwch pam:

7.2 Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Mae'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn cydymffurfio â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Mae'r ddarpariaeth ADYaCh yn berthnasol i nifer o nodweddion gwarchodedig yn benodol anabledd, ac felly mae'r gwasanaeth yn ystyried effaith polisïau ac arferion ar fynediad, cysondeb a thegwch. Mae hyn yn cynnwys:

- Sicrhau bod prosesau CDU yn hygyrch i deuluoedd (gan gynnwys cyfathrebu a chymorth)
- Monitro data perthnasol i adnabod unrhyw wahaniaethau mewn profiad neu ganlyniadau rhwng grwpiau

- Gweithio'n agos â Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar gyfer dysgwyr sy'n Blant Mewn Gofal
- Defnyddio mecanweithiau datrys anghydfod i leihau effaith negyddol ar deuluoedd.

7.3 Effeithiau posibl ar bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

Er nad yw'r adroddiad hwn yn gwneud penderfyniad strategol newydd ar flaenoriaethau, mae gwaith ADYaCh yn cyfrannu'n uniongyrchol at leihau anghydraddoldebau canlyniadau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol (e.e., mynediad at gymorth, presenoldeb, cynnal yn y prif lif). Caiff y gwasanaeth effaith y gwaith hwn ei fonitro drwy'r DPA ac mewn partneriaeth ag ysgolion i dargedu ymyrraeth gynnar.

7.4 Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Mae'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn cynnig gwasanaeth cyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg. Cydnabyddir, fodd bynnag, fod heriau gweithlu mewn rhai rolau arbenigol yn gallu effeithio ar gapasiti, ac mae mesurau lliniaru ar waith i sicrhau parhad gwasanaeth dwyieithog.

Mae'r gwasanaeth yn gweithredu'n unol â'r egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ac o gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Cydnabyddir heriau gweithlu mewn rhai rolau arbenigol (e.e., seicolegwyr addysgol) ac mae mesurau lliniaru ar waith drwy gynllunio'r gweithlu a threfniadau gweithredu er mwyn cynnal gwasanaeth dwyieithog o ansawdd.

7.5 Effaith posibl ar darged Carbon Sero Net y Cyngor

Niwtral

Nid yw'r adroddiad hwn yn debygol o gael effaith carbon sylweddol yn uniongyrchol. Fodd bynnag, lle bo gweithgareddau'n cynnwys teithio neu gomisiynu/caffael, caiff dewisiadau sy'n lleihau allyriadau (e.e., defnyddio cyfarfodydd hybrid a lleihau teithiau diangen) eu hystyried yn unol â chanllawiau adrodd sero-net y sector cyhoeddus.

## 8 Goblygiadau ariannol

Bydd y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn parhau i weithredu o fewn y gyllideb gytunedig hyd at 31/08/2026, ac nid oes arwyddion presennol o orwariant. Serch hynny, mae'r cynnydd mewn galw a dibyniaeth ar rai ffrydiau grant ar gyfer mentrau penodol yn parhau i greu pwysau capasiti.

## 9 Atodiadau

| |
|---|
| |

## 10 Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir

| |
|---|
| Ffion Edwards-Ellis |

03/2026

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 09 Mehefin, 2026 |
| **Pwnc:** | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cynghorydd Sonia Williams |

## 1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?

| **Aelod Portffolio** | **Rôl** |
|---|---|
| Amherthnasol | |
| **Swyddog Gwasanaeth (yn cefnogi)** | **Rôl** |
| Elin Allsopp | Swyddog Sgriwtini |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2026/27

## 3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac argymhellion

☒Er sicrwydd
☐Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☐Er gwybodaeth

Argymhelliad(ion):
Gofynnir i'r Pwyllgor:
**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2026/27
**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.

## 4. Sut mae'r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

Argymhelliad(ion):
Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor.

## 5. Themâu sgriwtini allweddol

Y meysydd allweddol ddylai'r Pwyllgor Sgriwtini ganolbwyntio arnynt:



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

Amherthnasol

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

**1. Cefndir**

1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

**2. Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Tîm Arwain a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny
  - Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a phrosiectau trawsnewid
  - Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
  - Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2026/27 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini).

## 7. Asesiadau effaith

7.1. Asesiad effaith integredig (ystyriaethau cydraddoldeb, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, a'r Gymraeg) wedi ei gynnal?

☐ Do
☒ Naddo

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 17 Mawrth, 2026

| |
|---|
| Os naddo, eglurwch pam: Amherthnasol |

7.2 Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

| |
|---|
| Amherthnasol |

7.3 Effeithiau posibl ar bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

| |
|---|
| Amherthnasol |

7.4 Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

| |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried |

7.5 Effaith posibl ar darged Carbon Sero Net y Cyngor

| |
|---|
| Positif / Niwtral / Negyddol a sut<br>Amherthnasol |

## 8 Goblygiadau ariannol

| |
|---|
| Amherthnasol |

## 9 Atodiadau

| |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2026/27 |

## 10 Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir

| |
|---|
| Elin Allsopp, Swyddog Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

# RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI

## Cyfnod: Mai 2026 i Ebrill 2027

## Fersiwn dyddiedig: 19/05/26

## Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd

Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma.
Cysylltwch â'r Tîm Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [sgriwtiniscrutiny@ynysmon.llyw.cymru]



## Mai 2026

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| **Mai, 2026 (12/05/2026)** | **Mai, 2026 (12/05/2026)** |
| Ethol Cadeirydd: 2026/27 | Ethol Cadeirydd: 2026/27 |
| Ethol Is-gadeirydd: 2026/27 | Ethol Is-gadeirydd: 2026/27 |

## Mehefin 2026

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| **Mehefin, 2026 (10/06/2026) – Ch4** | **Mehefin, 2026 (09/06/2026) – Addysg / Iaith Gymraeg** |

| | |
|---|---|
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2025/26 | Y Gymraeg<br>• Adroddiad Blynyddol ar Safonau’r Gymraeg: 2025/26<br>• Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032: Mesur Cynnydd→2024/25 |
| Dogfen Gyflawni Flynyddol: 2026/27 | Adroddiad ADY a Ch 2025/26-mesur cynnydd |
| Arolygiaeth Gofal Cymru | **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch 4 2024/25 Uchelgais Gogledd Cymru |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 |



Gorffennaf 2026

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| **Dim cyfarfod wedi’i raglennu** | **Gorffennaf, 2026 (14/07/2026)** |
| | Cynllun Strategol Taclo Tlodi |
| | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 |

Medi 2026

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| **Medi, 2026 (16/09/2026) – Ch1** | **Medi, 2026 (15/09/2026) -Cyfarfod Arbennig** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch1: 2026/27 | Adroddiad yn dilyn ymgynghoriad ar yr Ardoll Ymwelwyr<br>• Cynllun Strategol Rheoli Cyrchfan 2023-2028-mesur cynnydd |

| | |
|---|---|
| Strategaeth Tai Gwag 2023-2028-mesur cynnydd | Cronfa Lefelu i Fyny, Cronfa Twf Leol ac Adroddiad SPF |
| Cynllun Strategol Rheoli Asedau (Tai) 2024-2029-mesur cynnydd | Cynllun Strategol Rheolaeth yr AHNE 2023-2028-mesur cynnydd |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 | |
| | **Medi, 2026 (28/09/2026)** |
| | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 |



## Hydref 2026

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| **Hydref, 2026 (14/10/2026)** | **Hydref, 2026 (13/10/2026)** |
| Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9): 2025/26 | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn: 2025/26 |
| Adroddiad Cynydd Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol | Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng: 2025/26 | **Eitem er gwybodaeth:** Uchelgais Gogledd Cymru:<br>• Adroddiad Blynyddol: 2024/25<br>• Adroddiad Cynnydd Ch1: 2025/26 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 |

Tachwedd 2026

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| **Tachwedd, 2026 (11/11/2026) - Ch2** | **Tachwedd, 2026 (10/11/2026) -Addysg** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2026/27 | Gwasanaeth ADY a Chynwysiant-mesur cynnydd |
| Adroddiad Hunanasesiad, Perfformiad a Llesiant 2025/26 | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| Diogelu Corfforaethol | **Eitem er gwybodaeth:** Cynllun Strategol Rheoli Asedau-mesur cynnydd |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 |



Ionawr 2027

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| **Ionawr, 2027 (19/01/2027) – Cyllideb 2027/28 (bore)** | **Ionawr, 2027 (20/01/2027)** |
| 2027/28 Sefydlu Cyllideb (cyllideb refeniw) - cynigion drafft cychwynnol | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn:<br>• Adroddiad Blynyddol 2025/26<br>• Trefniadau llywodraethiant / craffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Adnoddau | Cynllun Strategol Tuag a Sero Net 2026-2031- mesur cynnydd (Targedau Ynni Gwasanaethau Tai) |
| | **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch2 2025/26 Uchelgais Gogledd Cymru |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 |

## Chwefror 2027

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| **Chwefror, 2027 (17/02/2027) –2027/28 Cyllideb** | **Chwefror, 2027 (16/02/2027)** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2027/28 – refeniw a chyfalaf | Cynllun Gweithredu Llety Sipsiwn a Theithwyr |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Adnoddau | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 |

## Mawrth 2027

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| **Mawrth, 2027 (10/03/2027) - Ch3** | **Mawrth, 2026 (09/03/2027)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2026/27 | Grŵp Llandrillo Menai |
| Strategaeth Grant Cymorth Tai 2027-2031 | Porthladd Rhydd Ynys Môn-mesur cynnydd |
| Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb: 2025/26 | Gwasanaeth ADY a Chynwysiant-mesur cynnydd |
| | **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch3 2026/27 Uchelgais Gogledd Cymru |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 |

## Ebrill 2027

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| **Dim cyfarfod wedi'i raglennu** | **Dim cyfarfod wedi'i raglennu** |

This page is intentionally left blank